



Y Gaerffili A GAREM THE Caerphilly WE WANT

Gweithdai Ymgysylltiad Cymunedol

Cefndir a phwrpas

Cynhaliwyd pum gweithdy ymgysylltiad cymunedol ar draws y fwrdeistref sirol, i roi cyfle i breswylwyr, sefydliadau a grwpiau adolygu'r Cynllun Drafft ac ystyried y 4 Amcan. Gofynnwyd i fynychwyr y gweithdai wneud sylwadau i nodi a yw'r camau cywir ar waith o fewn y Cynllun i gyflawni'r 4 Amcan, yn ogystal ag adnabod y camau allweddol sydd ar goll. Gofynnwyd hefyd i fynychwyr ystyried beth fydden nhw'n gallu ei wneud er mwyn sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd, fel unigolion ac fel rhan o'u cymunedau.

Dull

Cafodd y gweithdai eu hwyluso gan swyddogion o Uned Polisi Corfforaethol y Cyngor, gyda chefnogaeth aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

Cafodd y gweithdai eu rhannu'n bedair rhan, a oedd yn ystyried y canlynol:

- Y stori hyd yn hyn – i gynorthwyo mynychwyr i ddeall y cyd-destun a chefnidir y gweithdy
- Beth yw eich barn ar y 4 Amcan a'r camau i'w cyflawni?
- Pa gamau sydd ar goll a pham y dylid eu cynnwys?
- Beth allech chi neu eich cymuned/sefydliad ei wneud i sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd?

3 Hydref 2017 - Canolfan Dewi Sant, Rhymni

Beth yw eich barn ar y 4 Amcan a'r camau i'w cyflawni?

Sylwadau Cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd mynychwyr yn cytuno â'r 4 Amcan ac yn teimlo ei bod yn bwysig pwysleisio ar yr agweddau cadarnhaol yn hytrach na'r negyddol. Roedden nhw'n teimlo mai'r anhawster fyddai sicrhau ymrwymiad y gymuned. Er eu bod yn cytuno ei bod yn bwysig ymgysylltu gyda'r cyhoedd, roedden nhw'n teimlo bod y bobl broffesiynol yn dueddol o gael eu harwahanu o'r cymunedau.

Roedden nhw'n cytuno y byddai pwrcasu ar y cyd yn dda ar bob lefel, ond roedd peth pryder ynglŷn â chyllidebau penodol a osodwyd a chyllidebau ar y cyd, sy'n gallu cyfyngu ar gynnydd o ran gweithio ar y cyd. Gofynnwyd y cwestiwn, 'Pwy fydd yn goruchwyllo cydweithrediad?' ac roedd mynychwyr eisiau gwybod a fyddai agwedd aml-asiantaeth tuag at y materion?

Dechrau Positif:

Teimlwyd bod problem ym Mhontlotyn gan nad oeddent yn cael eu hystyried i fod yn ddigon difreintiedig ac felly ddim yn derbyn cefnogaeth gan raglenni megis Dechrau'n Deg, ac nad oedd hynny'n deg ar y teuluoedd difreintiedig yn yr ardal. Roeddent yn cwestiynu pwy oedd yn mesur yr angen a sut.

Teimlwyd bod problemau iechyd meddwl yn dod i'r amlwg yn ifanc iawn ac felly bod angen cefnogaeth ychwanegol ar gyfer pob grŵp oedran. Roedden nhw'n cytuno bod angen mwy o gydnabyddiaeth o'r problemau ar oedran iau, yn hytrach na cheisio dal i fyny yn yr ysgol. Awgrymwyd bod angen i ACE recriwtio rhieni i gefnogi rhieni eraill.

Cafwyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r ffaith nad yw darpariaeth gofal plant yn cefnogi cyflogaeth. O'i gymharu â Lloegr, nid oes digon o arian i dalu costau gofal plant, felly nid yw ar gael am ddim.

Roedd mynychwyr yn teimlo bod angen i fyrddau iechyd gydweithio a bod gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gofal i sicrhau hyn.

Pobl Bositif:

Cytunwyd bod angen symudiad o fewn arferion gofal iechyd i annog preswylwyr i ymgysylltu mwy mewn gwella eu hiechyd eu hunain, ond er mwyn sicrhau hyn, rodd angen i feddygon teulu a'r Gwasanaeth Iechyd gymryd rhan i wneud y newid hwn. Cafwyd nifer o sylwadau'n ymwneud â chau meddygfeydd teulu mewn sawl ardal, sy'n gwneud gofal iechyd ataliol yn anodd i bobl heb fodd i deithio, i bobl anabl, pobl hŷn a'r rhai sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus. Mae angen gwell cynllunio ymlaen llaw gan y Gwasanaeth Iechyd i sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn y lle iawn. Roedd y grŵp yn teimlo nad oedd gwasanaethau ar ôl ym Mhontlotyn lle bu amrediad eang o wasanaethau yn y gorffennol.

Bu mynychwyr yn trafod grymuso yn y 1980au cynnar a 'Rhaglen Gymunedol' Llywodraeth Cymru fel enghraifft o arfer dda. Bu Menter Gymunedol Abertyleri yn defnyddio pobl wedi ymddeol, di-waith i hyfforddi pobl ifanc a throsglwyddo sgiliau. Roedden nhw'n teimlo ein bod angen mwy o hyn i ddarparu cyfleoedd hyfforddi'n seiliedig ar y gymuned i bobl ifanc ac y dylem ddod â'r rhaglen gymunedol yn ôl.

Roedd nifer yn teimlo bod angen i ni annog ymrwymiad a chydweithio a datblygu cysylltiadau cryf trwy wirfoddoli. Awgrymwyd bod nifer o gyfleoedd yn cael eu colli a fyddai'n gallu canolbwyntio ar effeithiau iechyd ataliol, megis darparu dosbarthiadau cadw'n heini yn lleol ar gyfer pobl hŷn a gwasanaethau cefnogi megis lawntiau bowllo a ddefnyddir i gadw pobl yn iach ac yn symud.

Roedd mynychwyr yn teimlo bod angen newid o'r gylchred barhaus o brosiectau byr dymor sy'n cael eu rhedeg ac yna'n diflannu, gan ei fod yn golygu ei bod yn colli'r wybodaeth a'r profiad yn gyson ac yn gorfod dechrau eto dro ar ôl tro. Mae nifer o fân newidiadau wedi dod ac wedi mynd, ond yn ddefnyddol, dylem fod yn anelu at gadw arfer dda.

Lleoedd Positif:

Roedd mynychwyr yn teimlo bod angen cydraddoldeb o ran gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae problemau'n cael eu symud trwy strategaethau tai ac roedd nifer yn teimlo bod problemau Lansbury Park yn cael eu symud i'r Rhymni.

Roedd pawb yn gytûn bod tipio anghyfreithlon yn gwaethygu. Roedden nhw'n teimlo y dylai mentrau undyn bychain gael caniatâd i ddefnyddio sgiplau cyhoeddus, ac y dylid dileu ffioedd er mwyn atal ysbwriel rhag cael ei waredu yn yr amgylchedd. Cytunwyd fod angen agwedd mwy holistig ar gyfer buddion hirdymor. Mae'n rhaid i'r cyllidebau a osodir fod yn fwy hyblyg i fodloni gofynion a materion amgylcheddol.

Cafwyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r angen i gysylltu cludiant cyhoeddus â chyfleoedd cyflogaeth.

Codwyd materion diogelwch cymunedol ar draws wardiau etholiadol gan gynnwys Stryd Fawr Rhymni ac Abertyswg. Roedd mynychwyr yn teimlo bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau'n ymwneud ag iechyd meddwl angen sylw.

Roedd nifer o fynychwyr yn bryderus ynglŷn â phrosiect mwyngloddio brig Nant Lles yn parhau. Roeddent yn ansicr a oedd apêl yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a oedd yn amlygu'r diffyg cyfathrebu gyda'r gymuned leol.

Newid Positif:

Roedd mynychwyr yn teimlo bod angen newid cadarnhaol yng Nghwm Rhymni Uchaf a gofynnwyd a oedd y sefyllfa ariannol newydd yn annog neu'n gorfodi pobl i gydweithio mwy.

Awgrymwyd y dylid rhoi pwyslais ar yr agweddau cadarnhaol yn y Rhymni i annog pobl i fod yn ymwybodol o'r holl agweddau cadarnhaol yn eu hardal leol. Roedden nhw'n teimlo bod effaith negyddol eisoes yn bodoli o ganlyniad i gau'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf, ac roedd angen goresgyn y rhain.

Pa gamau sydd ar goll a pham y dylid eu cynnwys?

Ni chafwyd sylwadau ynglŷn â chamau sydd ar goll.

Beth allech chi neu eich cymuned ei wneud i sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd?

Roedd mynychwyr yn teimlo bod angen canolfannau ymarferol mewn cymunedau, fel bod pobl yn gallu dysgu o oedran ifanc. Roedden nhw'n cytuno bod pobl yn hanfodol ar gyfer cydlyniad cymunedol, ond nid oedd gan bob cymuned berson cyswllt allweddol, ac mae angen newid hynny. Roedden nhw hefyd yn teimlo bod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau

Cyhoeddus (BGC) gefnogi grwpiau cymunedol ac y gallai hefyd fod yn rôl ar gyfer Datblygiad Cymunedol Cynradd, fel y profwyd ar ddechrau'r 1980au.

Mae angen agwedd fwy cadarn tuag at wirfoddoli, yn enwedig gan fod niferoedd gwirfoddoli wedi gostwng. Er bod agwedd o helpu eu hunain yn iawn ac yn gynaliadwy, mae rhai angen cymorth i ddechrau arni. Roedd mynychwyr yn cytuno bod gormod o reolaeth a chyfyngiad ar gyfer gweithgareddau cymunedol, felly roedd pobl yn ansicr ynglŷn â pha gamau y dylent eu cymryd yn y gymuned leol. Pe byddai gennym nodau ar gyfer pob maes, byddem yn gallu buddsoddi mewn pobl a throsglwyddo gwybodaeth a chyflawni agwedd gynaliadwy tuag ar wirfoddoli a chefnogaeth gymunedol.

Roedd mynychwyr yn cytuno bod angen i ni ganolbwyntio ar gynllunio cynaliadwy a mabwysiadu agwedd Ganol y Dref i ddatblygu cymunedau. Byddai hyn yn mynd i'r afael â materion diogelu cymunedol, sy'n effeithio ar y preswylwyr yn ogystal â busnesau lleol. Cafwyd sylwadau bod angen mwy o gefnogaeth gan yr Heddlu gan nad ydynt yn ymateb i alwadau 101.

Codwyd ambell i fater arall gan y mynychwyr, gan gynnwys y ffaith eu bod yn teimlo bod ysgolion wedi'u gwahanu o gymunedau a bod cyfle'n cael ei golli i ddod â phobl broffesiynol i mewn i'r ysgolion i ddysgu rhieni a phlant.

Roedd mynychwyr hefyd yn teimlo bod gwasanaethau'n cau am byth pan fyddant yn cau, felly dylid canolbwyntio mwy ar eu cadw i fynd. Nid oedd rhai o'r adeiladau a ddefnyddiwyd fel ardaloedd aml ddefnydd bob amser yn addas at y diben.

Teimlwyd y dylai'r materion a godwyd fod yn rhan o'r gwaith craidd, nid rhywbeth ychwanegol i'w ystyried.

Gofynnodd mynychwyr hefyd pwy yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a sut mae'n gweithio? Roedden nhw'n teimlo bod diffyg gwybodaeth ynglŷn â hyn, lle dylid bod yn fwy agored a thryloyw. Roedden nhw'n awgrymu y dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) gynnal cyfarfodydd yn y gymuned a chaniatáu'r cyhoedd i fynychu.

10 Hydref 2017 – Neuadd Pensiynwyr Park Road, Rhisga

Beth yw eich barn ar y 4 Amcan a'r camau i'w cyflawni?

Sylwadau Cyffredinol:

Roedd mynychwyr yn hapus gyda'r 4 Amcan ar y cyfan, er eu bod yn mynegi pryder ei fod yn ymddangos fel cynllun corfforaethol. Roedden nhw'n teimlo bod angen iddo fod yn fwy lleol ac yn seiliedig ar bobl. Gofynnodd y grŵp 'Beth yw'r Caerffili yr ydym ni ei eisiau?' Roedden nhw'n cwestiynu a'r ardal, sefydliad neu'r bobl ydyw. Roedden nhw hefyd yn holi a oedd y cynllun yn ymarfer i arbed arian, gan awgrymu os mai dyma'r gwir, byddai'n tynnu oddi ar yr elfen leol ac yn gwneud y camau'n anos i'w cyflawni, yn ogystal â gwneud pobl yn fwy diystyriol a gweithio'n unigol.

Newid Positif:

Roedd mynychwyr yn canolbwyntio trafodaethau ar yr angen i'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol ymgysylltu a deall yr angen am newid. Roedden nhw'n teimlo bod y trydydd sector ar goll yn y cynllun. Rhoddodd y grŵp enghreifftiau o wasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd, megis y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Ambiwlans ac yn teimlo y dylem fod yn hyrwyddo'r arfer dda yma i annog eraill i wneud yr un fath.

Roedd nifer yn teimlo nad oedd digon o wasanaethau'n cefnogi iechyd meddwl a bod angen hyfforddiant a chynghor pellach yn y maes hwn. Yr anhawster oedd canfod pobl neu sefydliadau i helpu neu i gyfeirio pobl atyn nhw i dderbyn cefnogaeth.

Roedd y grŵp yn cytuno bod gwirfoddoli'n faes allweddol a bod angen mwy o wybodaeth yn dangos sut mae'n eistedd o fewn y cynllun i gefnogi'r gymuned leol. Un mater a godwyd oedd y cyfyngiadau o ran gweithio gydag asiantaethau eraill a mynediad at gyllid. Mae angen mwy o ymgysylltiad ar lefel leol (a lefel micro) i annog a chefnogi pobl i gydweithio.

Dechrau Positif:

Roedd dealltwriaeth gyffredinol o'r angen i dorri cylchred ACE a chytundeb bod ychydig ohono'n ymwneud ag iechyd. Roedd mynychwyr yn teimlo bod addysg yn gallu dylanwadu'n sylweddol ar hyn, gan ddarparu gwybodaeth i rieni i gynorthwyo i'w cefnogi. Roedd nifer yn teimlo nad oedd digon o leoedd ar gael mewn ysgolion a bod gwasanaethau eisoes wedi eu hymestyn yn rhy bell, gan achosi effaith mwy negyddol ar ardaloedd lleol.

Pobl Bositif:

Roedd pawb yn cytuno bod angen gwirfoddoli a phrentisiaethau i wella sgiliau, ond nad oedd modd cael y cyfleoedd hyn os nad yw'r gwaith yno. Roedden nhw'n teimlo bod angen creu a chynnal cyfleoedd gwaith yn yr ardal leol i alluogi cynlluniau prentisiaeth i gael eu cynnal. Rhoddwyd enghraifft o waith a wnaed yng Nghaerloyw - pan oedd Cei Caerloyw (Gloucester Quays) yn cael ei ddatblygu, buont yn gweithio gyda chyflogwyr lleol i gael gwaith i bobl leol. Roedd cydnabyddiaeth bod agwedd fel hon yn gofyn am newid cenedliadol mewn rhai achosion, a fydd yn gofyn am ymroddiad ac adnoddau.

Roedd nifer yn teimlo bod angen i ni ei gadw'n lleol ar gyfer pob ardal er mwyn sicrhau bod y gwaith yn ataliol, a bod angen i ddarpariaeth fod ar lawr gwlad i roi hyder i bobl a dangos iddyn nhw beth sy'n digwydd mewn gwirionedd.

Lleoedd Positif:

Roedd nifer yn amlygu pryder ynglŷn â phobl yn teimlo'n fregus yn yr ardaloedd lle'r oedden nhw'n byw ac yn awgrymu defnyddio faniau camera i gynorthwyo i fynd i'r afael â phryder am drosedd, ynghyd â gwirfoddolwyr atal trosedd.

Roedd mynychwyr yn teimlo bod gan rai ardaloedd yn Rhisga enw drwg ac yn cwestiynu pa mor ddefnyddiol oedd y polisïau dyrannu tai ar gyfer gwella ardaloedd penodol. Cafwyd sylwadau hefyd bod y cynnydd mewn tai yn cymryd drosodd mewn mannau yng nghefn

gwlad, yn ogystal â chymryd drosodd mewn meysydd megis addysg, cludiant ayb, sydd hefyd yn cael effaith negyddol ar yr ardal leol ac ar les pobl.

Roedd pawb yn cytuno bod angen mwy o ymgynghori gyda phreswylwyr gan eu bod nhw'n gwybod effaith y materion ar eu hardaloedd lleol.

Pa gamau sydd ar goll a pham y dylid eu cynnwys?

Roedd y grŵp yn teimlo bod ambell gam ar goll gan gynnwys iechyd meddwl, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector ac addysg. Roedden nhw hefyd yn cytuno bod angen dull gweithredu ar lefel leol, sydd ar goll o'r cynllun.

Beth allech chi neu eich cymuned ei wneud i sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd?

Newid Positif:

Datblygu Cynllun Gweithredu Rhisga i gynnwys amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â'r gymuned leol, gan gynnwys diwrnod i'r gymuned i ymgysylltu gyda phob gwasanaeth a sefydliad. Bydd hyn yn ei dorri lawr i ddull mwy lleol i ddod â phobl at ei gilydd.

Creu cynlluniau gweithredu cymunedol gyda gwirfoddolwyr i helpu targedu problemau ac annog dull mwy cyfannol.

Cyfathrebu:

Gofynnodd mynychwyr sut fyddwn ni'n bwriadu cyfathrebu negeseuon cadarnhaol ar y cyd. Teimlwyd bod preswylwyr angen llwybr clir ar gyfer gwybodaeth sy'n gyraeddadwy i bawb. Ar hyn o bryd, nid yw pobl yn ymwybodol o'r hyn sydd yn eu hardal nes eu bod angen cael mynediad ato.

Cydweithio:

Awgrymwyd bod angen rhannu gwybodaeth mewn perthynas â Dechrau Positif a phlant, a bod angen rhannu gwybodaeth. Mae cyfle i athrawon, gweithwyr cymdeithasol a chydweithwyr iechyd ddod ynghyd yn anffurfiol i weithio gyda'i gilydd a helpu i fynd i'r afael â'r materion.

Mae angen annog busnesau i arddangos a hyrwyddo eu gwasanaethau i'r gymuned leol.

Caffael:

Cafwyd sylwadau bod cwmnïau mwy mewn gwell lle ar gyfer ymarferion tendro na chwmnïau llai ac y dylai ICE yng Nghymru ddarparu mwy o gefnogaeth ar gyfer sefydliadau llai.

Gofynnodd mynychwyr hefyd ynglŷn â chanolfannau cymunedol yn y fwrdeistref sirol a sut maen nhw i fod i weithio, gan fod teimlad eu bod yn dueddol o gael eu rhedeg gan y gymuned

Rheoli Asedau:

Rhodddwyd enghraifft o eglwys leol yn cymryd gofal dros Ganolfan Gymunedol Channel View ac yn gweithio gyda'r awdurdod lleol, y grŵp sgowtiaid lleol a Chymdeithas Dai Pobl i ryddhau ased ac yn ei dro, datblygu adeilad aml-ddefnydd pwrpasol sy'n addas ar gyfer defnydd cymunedol. Amlygwyd bod angen mwy o brosiectau fel hyn yn yr ardal leol ac ar draws y fwrdeistref sirol.

Dechrau Positif:

Roedd y rhwydwaith yn cytuno bod angen cefnogaeth barhaus o'r math iawn ar gyfer pob plentyn, nid y rhai gydag ACEs yn unig.

Pobl Bositif:

Mae angen mwy o weithredu cymunedol. Mae cyfathrebu, grwpiau gwirfoddol a chanolfannau cymunedol yn hanfodol er mwyn arwain hyn yn ei flaen. Mae angen canfod arweinwyr cymunedol ar gyfer pob ardal.

Mae Eglwys Agape yn Nghŷ Sign hefyd eisiau creu gofod ar gyfer busnesau bychain i leihau'r angen i gymudo ac i gadw gwaith yn lleol.

Cafodd bancio amser ei grybwyll fel modd o weithio gyda phobl i'w hannog i wirfoddoli, hyfforddiant a phrentisiaethau. Gallai gwersi gyrru fod yn gymhelliant ar gyfer bancio amser i helpu pobl i adael ystadau unig i fynd i'r gwaith. Gall bancio amser hefyd fod yn system fargeinio ar gyfer amser a sgiliau rhwng pobl. Mae'r cyfleoedd yn ddiddiwedd.

Creu porth prentisiaethau ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) - rhoi'r holl gyfleoedd mewn un lle. Gwneud yr un peth ar gyfer gwirfoddoli a hyfforddiant ayb.

Lleoedd Positif:

Cynllunio cynaliadwy - gosod ystadau tai (preifat neu gymdeithasol) mewn mannau gyda mynediad da ar gyfer cludiant a chyfleusterau. Mae'n rhaid i ni ddysgu o gamgymeriadau'r gorffennol.

Awgrymodd y grŵp ddefnyddio gwefan gymunedol www.nextdoor.co.uk sy'n cynnig cyfle i hyrwyddo crefftwyr lleol, eitemau ar werth, cŵn coll yn ogystal â digwyddiadau cymunedol a phartneriaethau lleol.

Defnyddio canolfannau cymunedol i ddarparu nifer o'r meysydd a nodwyd yn y cynllun o ganolfan leol.

10 Tachwedd 2017 - Canolfan Gristnogol Libanus, Coed Duon

Beth yw eich barn ar y 4 Amcan a'r camau i'w cyflawni?

Sylwadau Cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd mynychwyr yn teimlo y dylai'r cynllun fod yn bositif i gynorthwyo i oresgyn diffyg apathi preswylwyr a cholli'r ysbryd cymunedol fel y gwelwyd mewn ardaloedd lleol.

Roedden nhw'n teimlo bod gormod o bwyslais ar gyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgynghori, a fyddai'n golygu bod mwyafrif y boblogaeth yn colli allan ac yn methu â chymryd rhan.

Teimlwyd bod fandaliaeth, cyffuriau, beiciau modur oddi ar y ffordd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblemau mawr a oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Newid Positif:

Roedd mynychwyr yn teimlo bod angen i ni ddefnyddio ein hasedau a'n hadnoddau'n fwy effeithiol, gan adnabod prosiectau penodol i fod yn llwyddiannus (megis ceir trydan) a chwilio am y gwerth gorau yn hytrach na chostau isel yn unig, yn ogystal â blaenoriaethu materion a chaffael ar y cyd.

Cytunwyd hefyd bod sefydliadau gwirfoddol angen mwy o gefnogaeth o ran caffael er mwyn darganfod y cyfleoedd sydd ar fin codi. Byddai rhannu cytundebau mwy yn rhai llai yn ein cynorthwyo i sicrhau gwell gwerth am arian. Ar hyn o bryd mae perygl o ddefnyddio cyflenwyr mwy yn hytrach na chwmmñiau gan ei fod yn anoddach i gwmñiau llai gystadlu.

Teimlwyd hefyd bod angen i ni gynnwys mwy o'n preswylwyr a'n cymunedau. Ar hyn o bryd, nid yw pobl yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael iddyn nhw na sut i gael mynediad atynt ac mae angen i hynny newid.

Dechrau Positif:

Roedd mynychwyr yn teimlo bod gormod o gefnogaeth ar gael ar gyfer blynyddoedd cynnar a dim digon ar gyfer plant hŷn. Cafwyd nifer o sylwadau bod gwirfoddoli'n dwy anodd nag sydd yn rhaid iddo fod a bod pobl ofn gwirfoddoli neu weithio gyda phlant hŷn oherwydd pryder y bydd cymdeithas yn eu labelu mewn modd anghywir.

Roedd nifer yn teimlo y dylid rhoi cyfle i gymunedau wneud penderfyniadau ynglŷn â'r gwasanaethau yn eu hardaloedd, i annog perchnogaeth ar bob lefel.

Pobl Bositif:

Roedd mynychwyr yn cytuno bod unigrwydd ac arwahanrwydd yn faterion pwysig sydd angen sylw. Y peth anodd yw canfod pwy sydd angen help a phennu pa gyfleoedd sydd ar gael ar eu cyfer.

Roedd rhai'n nodi bod diffyg ysbryd cymunedol. Er mwyn troi hyn ar ei ben, mae angen i ni ddiogelu cymunedau rhag toriadau a'u hannog i weithio gyda'i gilydd a herio penderfyniadau lle bo angen.

Trafodwyd bod cyllid hefyd yn broblem. Roedd gweithgareddau a bwyd da'n cael eu hystyried yn ddrud ac nid oedd rhai'n gwybod pa fanteision oedd ganddyn nhw'r hawl i dderbyn gan nad oeddent yn cael gwybodaeth gan y bobl iawn neu'r ganolfan waith ac nad oedd ganddynt fynediad at gyfrifiadur i gael gwybodaeth eu hunain. Roedd costau uchel ar gyfer cludiant cyhoeddus hefyd yn cyfyngu ar fynediad pobl at waith os nad oedd car ganddynt.

Lleoedd Positif:

Roedd mynychwyr yn cytuno bod angen gofalu am ardaloedd gwyrdd, yn enwedig gan fod ardaloedd agored yn cael eu defnyddio ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a thipio anghyfreithlon. Roedd rhai o'r mynychwyr yn teimlo bod parcio ceir yn y parciau gwledig yn rhwystr, yn enwedig gan nad oes unrhyw gyfleusterau ar gael i bobl eu defnyddio.

Roedd y mwyafrif yn teimlo bod angen datblygiadau newydd yn y fwrdeistref sirol, ond bod angen agwedd o bartneriaeth er mwyn sicrhau cymysgedd dda o gartrefi preifat a chymdeithasol.

Gofynnodd mynychwyr am ragor o wybodaeth ar y prosiect 'Coalition of Change' gan eu bod yn ansicr o'r hyn a oedd yn cael ei gynnwys yn y prosiect hwn.

Pa gamau sydd ar goll a pham y dylid eu cynnwys?

Ni chafwyd unrhyw sylwadau ynglŷn â chamau sydd ar goll.

Beth allech chi neu eich cymuned ei wneud i sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd?

Mae materion iechyd a diogelwch yn rhwystr sylweddol rhag gwirfoddoli, gan gynnwys gwiriadau DBS. Ceir hefyd cyfleoedd hyfforddiant er mwyn datblygu sgiliau i annog mwy o bobl i gymryd rhan.

Roedd mynychwyr yn teimlo y gellir trefnu mwy o ddiwrnodau agored i hysbysebu'r gwasanaethau sydd ar gael i gymunedau lleol. Mae angen mwy o gyfathrebu rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r cymunedau, er ei fod wedi cael ei amlygu bod angen defnyddio pob math o ddulliau cyfathrebu, gan nad yw pawb yn gallu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae angen cael mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gwirfoddoli ac ymgysylltu â'u cymunedau lleol.

Ceisiodd y clwb bowls ymwneud â'r ysgolion yn y gorffennol, ond ni chafwyd llwyddiant o ganlyniad i faterion iechyd a diogelwch. Mae hyn yn atal ysgolion rhag dysgu sgiliau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd.

Roedd nifer o'r mynychwyr yn teimlo bod prinder presenoldeb yr heddlu yn y gymuned leol. Holwyd a fyddai unigolion sy'n rhan o'r cynllun gwneud iawn â'r gymuned yn gallu ymgymryd â phrosiectau amgylcheddol, gan gysylltu â sefydliadau eraill.

Awgrymodd sawl mynychwr y gellir cynnal cystadleuaeth gerddi i helpu i ddod â balchder yn ei ôl. Cafwyd nifer o sylwadau ynglŷn â holi preswylwyr beth hoffent ddigwydd i wneud gwahaniaeth, a beth yn eu barn nhw fyddai'r gymuned yn gallu ei wneud gyda'i gilydd. Roedd mwyafrif y grŵp yn credu bod delwedd negyddol ym Mhenllwyn.

Roedd pawb yn cytuno bod angen adeiladu ar ein hasedau ac edrych ar gyfleoedd adfywio i ddiogelu ardaloedd gwyrdd. Gallai'r Cyngor Tref weithredu fel galluogwr i hwyluso darpariaeth gwasanaeth ar sail partneriaeth.

Teimlwyd bod dod yn rhanbarthol wedi golygu ein bod wedi colli'r cyswllt lleol, felly mae angen i ni weithio'n agosach gyda chymunedau i sicrhau bod gennym ymgysylltiad ar bob lefel. Gallai rôl pencampwr gefnogi hyn.

21 Tachwedd 2017 - Canolfan Gristnogol Siloh, Ystrad Mynach

Beth yw eich barn ar y 4 Amcan a'r camau i'w cyflawni?

Sylwadau Cyffredinol:

Roedd mynychwyr yn teimlo os byddai uwch swyddogion yn treulio gormod o amser ar y cynllun, y byddai llai o amser yn cael ei dreulio'n rhedeg gwasanaethau a bod angen sicrhau cydbwysedd. Roedden nhw'n cytuno bod preswylwyr eisiau gwasanaethau da, nid pobl yn siarad.

Bu mynychwyr yn trafod y problemau y mae Athletau Cwm Rhymni'n eu cael i geisio parhau i gynnig eu gwasanaethau. Buon nhw bron â cholli eu cyfleusterau a leolir yn Ysgol Gyfun Coed Duon ac maent ar hyn o bryd yn chwilio am dir a chyfleusterau trac. Maen nhw'n ganolbwynt gwirioneddol i'r gymunedol a'r unig fwrdeistref heb un - enghraifft dda o blant difreintiedig.

Newid Positif:

Cafwyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r gofyn am fwy o dryloywder wrth i wasanaethau weithio gyda'i gilydd, ynghyd â rhagor o wybodaeth.

Dechrau Positif:

Roedd mynychwyr yn teimlo bod angen canolbwyntio ar les, iechyd meddwl a chynaliadwyedd a bod y trafodaethau gofynnol angen mewnbwn gan gymunedau'r ysgolion, yn enwedig ysgolion sy'n ystyried eu hunain yn ganolfannau i'r gymuned. Awgrymwyd bod ysgolion yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at wneud gwahaniaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Pobl Bositif:

Awgrymodd nifer o fynychwyr bod y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf wedi gwneud llawer o'r gwaith a drafodwyd, ond bod ei waredu wedi gadael bylchau, ac roedd eraill yn teimlo bod y rhaglen yn ymwneud i raddau helaeth â grymuso ac nad oedd yn cyflawni'r hyn a oedd yn bwriadu ei wneud.

Roedd mynychwyr yn teimlo y bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnig gwell defnydd o amser ac adnoddau yn y tymor hir a bod mwyafrif y grwpiau'n dechrau sylweddoli bod angen iddyn nhw wneud pethau drostynt eu hunain. Roedd y mwyafrif yn cytuno bod angen cynyddu cyfleoedd gwirfoddol ac annog gweithio ar draws cenedlaethau er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl

Cafodd y Gwasanaeth Tân ei grybwyll fel enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth gydag agwedd ataliol gan eu bod wedi newid y modd y maent yn gweithio i fod yn ymatebol yn hytrach na rhagweithiol.

Lleoedd Positif:

Ni roddwyd sylwadau penodol ynglŷn â'r amcan hwn gan y mynychwyr.

Pa gamau sydd ar goll a pham y dylid eu cynnwys?

Dim sylwadau

Beth allech chi neu eich cymuned ei wneud i sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd?

Caffael

- Roedd pawb yn cytuno bod angen i ni rannu arfer dda i ddysgu oddi wrth ein gilydd, gan hefyd fentro a rhoi cynnig ar ddulliau newydd.
- Roedd pawb yn cytuno y dylem ganolbwyntio ar gaffael. Cafwyd sylwadau y gallai grym gwario adnoddau cyfun fod yn arf fargeinio gwych ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.
- Gwaredu rhwystrau i alluogi gweithredu cymunedol. Mae rhwystrau'r Awdurdod Lleol yn rhwystredig; mae pobl yn teimlo bod iechyd a diogelwch yn cael ei ddefnyddio fel esgus i roi stop ar weithgaredd cymunedol.

Sefydliadau iechyd meddwl i bobl ifanc:

- Eisiau rhoi gwybodaeth i fyrddau iechyd ynglŷn ag anghenion pobl ifanc - mater cenedlaethol heb ei ariannu'n ddigonol, angen newid - effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.
- Paratoi i weithio gyda Phrosiect Cymunedol yn Hengoed. Siop un stop ar gyfer meddygon teulu, cynghorwyr, gweithwyr cymdeithasol ynghyd â chyllid wedi'i gasglu ynghyd - modelu ar Ganol Llundain.
- Mae ysgolion yn dechrau defnyddio ymwybyddiaeth ofalgar - bydd y prosiect yn mynd i'r afael â materion ACE, ond angen gwirio gyntaf a oes unrhyw broblemau'n bresennol - nid diagnosis iechyd meddwl unigol.

- Ceisiodd rhieni gael cefnogaeth ar gyfer problemau ar lefel isel lle nad oedd pobl ifanc yn ddigon gwael.
- Mae'r prosiect yn defnyddio cynghorwyr gwirfoddol - sefydlwyd yn wreiddiol yn Hengoed mewn cydweithrediad ag Undeb y Bedyddwyr gan ddefnyddio adeiladau mewn cymunedau.
- Awgrym gan y Bwrdd Iechyd i weithio gyda'r trydydd sector - llawer o enghreifftiau ar gael o weithio gyda'r trydydd sector gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).
- Mae gair ar lafar yn bwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae gan sefydliadau pensiynwyr rôl i'w chwarae wrth rannu gwybodaeth.

BIPAB:

- Nifer o bethau'n mynd ymlaen, ac nid yw bob un yn gysylltiedig, clywed am rywbeth newydd bob wythnos. Ddim yn dda iawn o ran rhoi argraff o'r sefydliad cyfan.
- Hefyd, nid yw mentrau'n cael eu hysbysebu'n effeithiol hyd yn oed pan ydych yn gweithio yn y maes. Enghraifft waith yn ymwneud â baglu a chwympo - BIPAB yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân i'w hyfforddi i gynnal asesiadau cwmpo yn ystod ymweliadau â'r cartref.
- Trafodaethau ynglŷn â phobl sy'n ymweld â phobl fregus yn cael eu hyfforddi'n ddiogel er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o ymweliadau â'r cartref. Gwirfoddoli cyfeillio- nid oes gan neb drosolwg cyflawn.
- Rôl y trydydd sector mewn gweithio ar y cyd. Sicrhau arian, cydweithio rhwng sefydliadau - cyfleoedd eang am gamau gweithredol gan y trydydd sector, ond nid ydym yn trafod - problem sylfaenol!!
- Cynllun Ymladdwyr Tân Ifanc - hefyd yn gweithio gyda'r sector preifat a'r trydydd sector.
- Plant mewn athletau fel mentoriaid a hyfforddwyr ar gyfer y dyfodol - magu hyder - dod â chynlluniau ynghyd.
- Iechyd meddwl - peryglon i blant iau a hŷn.
- Asesu problemau yn y cartref - diogelwch staff v agwedd tuag at weithio gyda phobl.

29 Tachwedd 2017 - Canolfan Gymunedol Twyn, Caerffili

Beth yw eich barn ar y 4 Amcan a'r camau i'w cyflawni?

Sylwadau Cyffredinol:

Roedd pawb yn cytuno bod y 4 Amcan yn trafod y prif faterion ac yn dda nad yw'n rhy gyfarwyddol. Roedd mynychwyr yn cwestiynu a oedd yn rhy uchelgeisiol ac yn holi o lefyddai'r arian yn dod i gefnogi'r gwaith.

Roedd mynychwyr yn teimlo mai ychydig iawn o gyfleoedd oedd ar gael ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig a phobl ifanc gan nad yw gweithwyr cefnogi'n cael croesi ffiniau (ffisegol/sefydliadol) felly roedd angen newid i annog gwasanaethau cyfannol.

Cytunwyd y byddai angen i bobl fod eisiau newid eu hunain, gallwch greu'r amodau i'w cynorthwyo, ond ni allwch wneud iddyn nhw newid os nad ydyn nhw eisiau gwneud hynny.

Gofynnodd mynychwyr a phryd y byddai'r BGC yn cynnwys ysgolion. Roedden nhw'n holi beth oedd yr Awdurdod Addysg Lleol yn ei wneud ac a oedd meysydd gweithredu ar waith ganddynt.

Roedd mynychwyr yn teimlo bod cyfathrebu'n hanfodol a bod angen i'r BGC gyfathrebu â phob maes. Gwnaed sylwadau nad rhannu asedau'n unig yw'r pwrpas; mae angen hefyd agor gofod at ddefnydd y gymuned.

Newid Positif:

Roedd mwyafrif y mynychwyr yn cytuno bod angen newid yr iaith yn y dogfennau os ydym ni'n dymuno ymgysylltu â phobl ifanc a phobl yn y gymuned leol. Mae angen cynhyrchu fersiwn hawdd i'w ddarllen. Roedden nhw'n teimlo bod potensial i weithio gyda phreswylwyr lleol, ond mae angen iddo fod yn ddull positif. Ar hyn o bryd, ni fyddai pobl o Barc Lansbury yn mynychu digwyddiad ymgysylltu gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn israddol. Maen nhw'n teimlo bod eu cymuned leol yn cael ei esgeuluso a bod ganddo enw drwg anhaeddiannol.

Amlygwyd nad oes pwyntiau gweithredu yn y cynllun gan ei fod yn ymddangos i gyfeirio ar ddarparu'n unig. Holodd y grŵp hefyd a oes wir angen y newidiadau yr ydym yn eu cynllunio, ac os felly, pwy sy'n gwneud y penderfyniad yma.

Dechrau Positif:

Ni wnaed unrhyw sylwadau penodol ynglŷn â Dechrau Positif

Pobl Bositif:

Roedd y grŵp yn cytuno bod gwirfoddoli'n llwybr i wella iechyd meddwl a lles, yn ogystal â llwybr i gyflogaeth.

Awgrymwyd hefyd bod angen cynnwys grwpiau cymunedol wrth ddarparu'r camau gweithredu.

Lleoedd Positif:

Ni wnaed unrhyw sylwadau penodol ynglŷn â Lleoedd Positif.

Pa gamau sydd ar goll a pham y dylid eu cynnwys?

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynglŷn â chamau coll.

Beth allech chi neu eich cymuned ei wneud i sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd?

- Annog mwy o bobl ifanc i gymryd rhan.
- Nid oes digon o wirfoddolwyr i redeg grwpiau lleol.
- Agweddau rhai ynglŷn â 'pheidio gwneud unrhyw beth am ddim' - mae angen i hyn newid.
- Defnyddio gwirfoddolwyr i ddatblygu eu sgiliau eu hunain a chanfod swyddi.

- Rhwydwaith Rhieni - eisoes yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddiant. Roedd pawb sy'n gweithio i'r sefydliad ar hyn o bryd yn rhieni/gwirfoddolwyr cyn sicrhau swydd gyflogedig - model da.
- Pencampwyr o fewn cymunedau fel pwyntiau cyswllt ar gyfer gwybodaeth ayb (rhannu gwybodaeth).
- Canolfan Gymunedol Beeches - gallu rhoi pethau ar y we ar safle we newydd.
- Cyswllt BGC ym mhob ardal i rannu gwybodaeth.
- Sefydliadau strategol yn arwain ond mae angen i gymunedau gymryd perchnogaeth.
- Gall camau gweithredu bychain wneud gwahaniaeth mawr.
- Edrych ar beth sy'n gweithio'n dda a'i ddefnyddio.
- Materion SATC o ran atgyweirio Lansbury Park - angen cael pobl yn y gymuned yn siarad gyda phreswylwyr a gwrando ar bobl i gasglu gwir bryderon. Mae angen pobl yn y gymuned nawr lle mae gwaith yn cael ei wneud er enghraifft. Mater lleol penodol - mae angen i adrannau'r cyngor gyfathrebu.
- Pwynt cyswllt unigol ar gyfer gwybodaeth a gwasanaethau cefnogi.
- Cludiant ar gyfer pobl ifanc wedi'u hynysu - mae Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc Aber yn wych ond nid ar gyfer pawb.
- Grwpiau ieuenctid yn cau yn ystod gwyliau ysgol - angen gweithwyr ieuenctid - gwirfoddolwyr?
- Angen brandio rhai gwirfoddolwyr fel prentisiaethau.
- Mae angen i sefydliadau gwirfoddol bychain gael hysbysebu eu gwasanaethau'n fwy effeithiol ar draws cyrff statudol - hyrwyddo'r hyn maen nhw'n ei wneud.
- Angen hybu gwirfoddoli.
- Mae pobl sy'n byw mewn ystadau newydd yn gyrru i mewn ac allan ac yn siopa ar lein.
- Dyluniad ystadau newydd - dim canolfannau cymunedol - diffyg cynllunio er mwyn i bobl gwrdd.
- Gwaredu'r rhwystrau rhwng cymunedau a darparwyr.
- Mae angen i'r sgwrs fod yn gyson - cyrraedd pobl yn araf.

Cymunedau Digidol Cymru - Wales Co-op:

- Gallan nhw ymwneud â phobl sy'n cymryd rhan ym mhob ardal cynllun gweithredu.
- Sut all technoleg helpu/hyfforddi staff/recrwtio gwirfoddolwyr?
- Bydd popeth yn mynd yn fwy digidol dros y 25 mlynedd nesaf.
- Mae ar-lein yn cynnig arbedion ond mae'n rhaid iddyn nhw ddod â phobl gyda nhw.
- Isadeiledd cyfathrebu/lleoedd/digidol.

Y Gymdeithas Strôc

- Gwirfoddoli a phrentisiaethau - recrwtio a defnyddio gwirfoddolwyr yn ein grwpiau. Gallai gynorthwyo pobl i gael mynediad at yrfaeoddd yn ymwneud ag iechyd.
- Recrwtio, hyfforddi a chofrestru gwirfoddolwyr.
- Gwirfoddolwyr rheolaidd sy'n gallu ymrwymo'n wythnosol.
- Gwirfoddolwyr ar gyfer digwyddiadau - nifer o gyfleoedd gwahanol.

Gwerth gwirfoddoli corfforaethol:

- Awr y mis, yn dda i staff.
- Profiad mewn meysydd gwahanol.
- Cefnogi cymunedau lleol.

Gwasanaeth Tân

- Hyfforddi myfyrwyr Prifysgol Caerdydd i gynnal archwiliadau diogelwch tân.
- Cadetiaid Tân/Cwnstabiliaid Gwirfoddol/Paneli atal trosedd/Cadetiaid yr Heddlu.
- Rhaglenni cyfeillio.
- Rhoi cyfle i bobl ifanc sydd o bosib heb gael eu hysbrydoli yn yr ysgolion roi cynnig ar bethau gwahanol.
- Ehangu gorwelion a chreu modelau rôl positif.
- Rhaglenni i Weithwyr
 - Croesawu teuluoedd di-waith ar draws cenedlaethau.
 - Rhaglen 6 wythnos i bobl ifanc o deuluoedd sy'n ddi-waith yn yr hirdymor.
 - Hunanddisgyblaeth a gwerth gwaith a manteision sy'n talu ar eu canfed.
- Gwirfoddoli i wella'r amgylchedd lleol - annog pobl i gymryd perchnogaeth o'u hardal eu hunain

A all busnesau lleol gymryd rhan - allan nhw ymuno?

- A oes modd iddynt ryddhau staff, ond mae angen rhywbeth i'w gynbig i fusnesau'n aml. Sut ellir eu hannog i ddod â phobl ifanc i'r busnesau a datblygu eu hunain?
- Cyfathrebu - digwyddiadau yng Nghanol Tref Caerffili - digwyddiadau'r cyngor. A fyddai modd cael stondinau gwirfoddoli fel rhan o'r prosiect? E.e. pobl yn cymryd sylw o faneri'r hysbysebu'r math yma o beth.
- A fyddai modd cael pobl i gofrestru i dderbyn diweddariadau dros neges destun/e-bost ayb?
- Nid yw pobl yn darllen posteri/taflenni yn aml - yn gyffredinol.
- Nid yw cymunedau'n cyfathrebu - sut mae'r BGC yn ymgysylltu â nhw?
- Rhai cyfleusterau cymunedol yn cael eu tynnu'n ôl - llai o gyllid e.e. addysg oedolion.
- Llawer ohonynt bellach yn ymwneud â dychwelyd i'r gwaith - dim dosbarthiadau lles.



Y Gaerffili A GAREM THE Caerphilly WE WANT

Fforwm leuenctid Caerffili

Wrth baratoi ar gyfer Cynhadledd y Fforwm leuenctid (16^{eg} Hydref 2017), bu'r Tîm Polisi yn gweithio gyda Chydlynnydd y Fforwm leuenctid i gryfhau'r cysylltiadau rhwng eu rhaglen waith bosibl a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn y cynllun llesiant. Mae'r Fforwm leuenctid wedi bod yn bartneriaid allweddol wrth ddatblygu'r Asesiad Llesiant a thrwy hyn maent wedi hysbysu'r 37 mater a ddaeth i'r amlwg.

Cynhyrchodd y Fforwm leuenctid restr o 25 mater i'w trafod yn eu Fforwm blynyddol. Roedd y rhain wedi'u strwythuro o amgylch 5 thema'r Cynllun Integredig Sengl cyfredol (Saffach, Ffyniannus, Iachach, Dysgu, Gwyrddach). Cwblhawyd darn o waith dadansoddi gan yr Uned Bolisi i nodi'r cysylltiadau rhwng y 25 o faterion y Fforwm leuenctid, amcanion y Cynllun Llesiant drafft a'r 37 o faterion Asesu.

Mae'r mwyafrif o faterion y Fforwm leuenctid yn cydberthyn yn uniongyrchol ag amcanion y cynllun Llesiant drafft a'r materion asesu. Y rhai nad oeddent yn cydberthyn oedd o dan gyfrifoldeb uniongyrchol sefydliad unigol. Rhannwyd y wybodaeth hon gyda Chydlynnydd y Fforwm leuenctid a chafodd ei defnyddio yng ngweithdai'r gynhadledd, a oedd hefyd yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd y wybodaeth a rennir drwy'r darn hwn o waith yn llywio datblygiad meysydd gweithredu'r cynllun.



Y Gaerffili A GAREM THE Caerphilly WE WANT

**Sefyllfaoedd Posibl ar gyfer y Dyfodol 3: Gwneud Iddo Ddigwydd!
Dydd Iau 25 Hydref 2017 - 10:15am hyd 1:00pm
Capel Ebenezer, Teras yr Afon, Pengam, Coed Duon**

Cefndir a phwrpas y cyfarfod

Dyma'r trydydd digwyddiad Sefyllfaoedd posibl ar gyfer y Dyfodol lle mae gweithwyr proffesiynol wedi ymgynnull i roi mewnbwn i ddatblygiad yr Aseiad Lles a'r Cynllun Lles. Roedd y sesiwn yn rhoi cyfle i adolygu'r Cynllun Drafft ac ystyried y dull a awgrymwyd.

Dull

Cymerodd 60+ o unigolion ran yn y gweithdy yn cynrychioli sefydliadau o bob cwr o'r fwrdeistref sirol a'r sefydliadau hynny sy'n gweithredu yng Ngwent neu'n genedlaethol. Cafodd y digwyddiad ei hwyluso gan yr Uned Polisi Corfforaethol.

Rhannwyd y drafodaeth yn adrannau a oedd yn edrych ar y canlynol:

- Y stori hyd yn hyn - i gynorthwyo mynychwyr i ddeall cyd-destun a chefnidir y gweithdy.
- Dull a awgrymir i 'Wneud iddo Ddigwydd' – ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r dull hwn?
- Pwy ddylai gymryd rhan ym mhob grŵp Maes Gweithredu a pha gamau eraill y dylid eu hystyried?

Dull a awgrymir i 'Wneud iddo Ddigwydd' – ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r dull hwn? (Arweinwyr BGC, grwpiau Meysydd Gweithredu, ICLIP, ac unrhyw egwyddorion eraill i'w hystyried)

- Synhwyrol - wedi'i gynllunio'n dda.
- Cytuno â'r dull.
- Mae'r dull newydd yn cael ei groesawu. Roedd y SIP yn adrodd ar y gwaith dyddiol yn unig/ymarfer ticio'r blychau.
- Mae defnyddio'r iaith 'positif' yn ffres, ac mae pobl yn ei hoffi.
- Rhannu perchnogaeth, cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyfartal.
- Gallu herio ei gilydd.

- Cydweithio, sicrhau'r person gorau ar gyfer y swydd, adnabod cryfderau gwahanol sefydliadau.
- Ystyried adnoddau pob sefydliad.
- Gwneud pethau'n wahanol.
- Mae 'newid meddylfryd' yn parhau i fod yn un o'n prif heriau.
- Arweinyddiaeth o'r brig yn hanfodol.
- Rydym yn cytuno y dylai'r BGC arwain gyda 12 swyddog arweiniol o sefydliadau'r BGC yn gweithio gyda'r pencampwyr.
- Mae'n dda cael pencampwr BGC - yn gallu edrych o safbwynt gwahanol.
- A fydd y pencampwyr yn cael eu cynnwys yn y grwpiau gweithredol? Os bydd y 4 Pencampwr yn gyfrifol am grwpiau gweithredu penodol (3?), bydd hyn yn creu gweithio unigol unwaith eto.
- Swyddogion arweiniol yn mynd i'r BGC - syniad da.
- Bydd angen i'r Swyddogion Arweiniol dderbyn briff cywir a'u bod yn frwdfrydig am yr hyn y mae gofyn iddynt ei ddarparu. A ddylai bod ganddynt ddisgrifiad swydd?
- Roedd un grŵp yn teimlo'n gryd bod angen i ni symud ymlaen mewn modd cadarnhaol ac yn hoff o'r 4 Amcan. Roedden nhw hefyd yn teimlo'n gryf bod angen i Newid Positif ddigwydd yn y lle cyntaf i alluogi llwyddiant yr Amcanion eraill. Dylai Newid Positif sefyll yn unigol/uwchben er mwyn galluogi eraill i gael eu cwblhau.
- Mae gormod o drosiant staff mewn grwpiau lle bod profiad neu gynnydd yn cael ei gollu. Mae angen i'r Pencampwyr/Arweinwyr fod yn gyson dros gyfnod hwy a chael amser i gyflawni'r rôl yn iawn. Mae'n rhaid i aelodau'r grŵp fynychu bob tro er mwyn cadw cysondeb.
- Mae angen iddo fod yn haws i'w ddeall ar gyfer aelodau'r cyhoedd/pobl broffesiynol.
- Mae angen i'r 4 Amcan gysylltu â gwerthoedd cymunedol i sicrhau newid parhaol.
- Mae'r Meysydd Gweithredu wedi'u hysgrifennu mewn iaith gorfforaethol ac felly nid ydynt yn hawdd uniaethu â nhw - angen eu rhesymoli.
- Yn hapus gyda'r 4 Amcan yn gyffredinol, ond ddim mor hapus gyda'r 12 Maes Gweithredu - angen eglurdeb!
- A oes gan y BGC y grym i herio a newid y ffordd y mae cyllid yn cael ei dalu a gwneud i grwpiau gwahanol weithio gyda'i gilydd? Mae'n rhaid i ni ddatblygu dulliau o rannu ein hadnoddau.
- Arsylwad negyddol posibl - a yw'r strwythur yn rhoi meysydd gwaith mewn bocsys? Sut allwn ni sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd? Mae angen gwell ffyrdd o rannu gwybodaeth. Sut fyddwn ni'n gwybod bod yr Arweinwyr yn edrych ar bob maes?
- Arweinwyr i weithio gyda'i gilydd - cyfarfodydd chwarterol o bosibl i adnabod a gweithio ar feysydd sy'n croesi.
- Pryderon ynglŷn â sianeli cyfathrebu ar draws cyrff/busnesau ayb.
- Cerrig milltir cyraeddadwy, dechrau'n fychan er mwyn gallu olrhain cynnydd.
- Mae cyflawniadau sydyn yn magu hyder.
- Tymor hir - bydd nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio cyn y gallwn wybod a yw ein dull ar gyfer pob Maes Gweithredu yn gweithio'n iawn.
- Gweithio'n rhanbarthol - er bod y cynllun presennol yn benodol ar gyfer Caerffili, mae data'n dangos meysydd cyffredin ar draws ardaloedd Awdurdod Lleol yng Ngwent ac yn ystyried bod partneriaid yn gweithio ar draws 5 neu fwy o ardaloedd Awdurdod Lleol.
- A oes modd i ni gyflwyno'r dull yn raddol? Gallai fod yn rhy anodd i un sefydliad wneud hyn i gyd. A fyddai modd i ni gymryd agwedd rhanbarthol lle bo hynny'n bosibl?
- Gallai gweithio mewn meysydd gweithredu olygu bod pawb yn dychwelyd i weithio'n unigol. Sut allwn ni osgoi hyn?

- Wedi'i arwain gan ystadegau - nid yw hyn yn helpu.
- Mesur - angen gwybodaeth - allbwn a deilliannau.
- Cynlluniau > adroddiadau > angen parhau i ganolbwyntio a darparu gwybodaeth am y pethau sydd o bwys ac arwain at newidiadau gwirioneddol mewn darpariaeth.
- Pryder - strwythur tebyg/Arweinwyr = camu'n ôl i'r hen ffordd o weithio (strwythur o fewn sefydliadau). Mae angen iddo fod yn fwy dynamig ac i bartneriaid gymryd perchnogaeth!
- Pa systemau sydd angen i aelodau'r BGC eu hystyried yn eu gwasanaeth eu hunain i wneud i hyn weithio?
- Mae angen i fusnesau gymryd mwy o ran mewn cynllunio, bod yn rhan o'r gymuned, ymgysylltu â nhw - casglu eu safbwyntiau, dim digon o gyswllt gyda busnesau.
- Mentrau cymdeithasol - nid oes cysylltiadau'n cael eu gwneud ar gyfer darpariaeth a byddai cyfle ar gyfer hynny.
- Lefelau ymgysylltiad gyda gwasanaethau nad ydynt wedi ymgysylltu i raddau helaeth hyd yn hyn (e.e. Addysg, Iechyd). Pwysig iawn ar gyfer gweithio gyda'n gilydd (e.e. Adolygiad Donaldson - ysgolion).
- Beth am y rhai gydag anabledau/problemau iechyd?
- Dylai grwpiau gweithredol gynnwys aelodau'r cyhoedd, mae ganddyn nhw'r hawl i gymryd rhan a gyda chyfyngiadau amser swyddogion. Bwlch enfawr rhwng yr hyn mae'r Ddeddf yn ei ddweud a'i weithrediad ymarferol. Sut fydd o'n cynnwys dinasyddion drwyddi draw? Cynrychiolwyr democrataidd neu eraill? A fyddwn ni'n meddwl yn ehangach? Meddwl yn wirioneddol am y bobl fel asedau. Peidiwch â bod yn symbolaidd, dangoswch gynnydd gwirioneddol.
- Mae angen ymrwymiad cryf i weithio ar y cyd gyda'r gymuned a sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r rhain, tu hwnt i rannau o'r gymuned sy'n eu dethol eu hunain. Mae angen i ni ganfod ffordd o ymgysylltu gyda rhannau eraill o'r gymuned mewn modd ystyrlon.
- Mae angen i gysylltiadau gyda phobl ifanc fod yn fwy pendant ac mae angen dull ehangach o ymgysylltu â phobl ifanc.
- Cysylltiadau agosach gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- Gallai gorgyffwrdd mewn Meysydd Gweithredu achosi gwrthdaro.
- Hoffi syniad y Meysydd Gweithredu a'r cyfle i'r trydydd sector weithio ar y cyd gyda'r BGC.
- Sefydliadau'n dod o dan fwy nag un maes (pwysig gweithio ar y cyd a chefnogi'n gilydd).
- O ran y strwythur a gynigiwyd, bydd llwyddiant yn dibynnu ar BWY sy'n cael eu penodi fel Arweinydd - ymrwymiad, awydd ac adnoddau i lwyddo. Sut fydd yr Arweinwyr yn cael eu penodi? Nid enwebu yw'r ffordd orau bob amser. Bydd angen cymysgedd o grwpiau gorchwyl a gorffen yn ogystal â llif gwaith parhaus.
- Mae angen i bresenoldeb mewn cyfarfodydd fod yn berthnasol ac yn ystyrlon.
- Mae angen i sefydliadau/unigolion herio eraill pan fo arfer dda yn methu.
- Mae'n rhaid sicrhau bod y bobl iawn gyda'r wybodaeth iawn yn cymryd rhan.
- Sut fydd y Meysydd Gweithredu'n cael eu mesur a'u monitro?
- Sut mae llwyddiant yn edrych?
- Y prawf gwirioneddol: A yw/fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl - beth bynnag mae'r BGC yn penderfynu ei wneud neu beidio â gwneud.
- ICLIP - rhaid iddo beidio â bod yn gam gwag.
- Ar y cyfan - mae ICLIP yn cael ei ystyried i fod yn iawn.

- Mae angen cymryd golwg cadarnhaol dros y materion deddfwriaethol sy'n cael eu gweld yn aml fel rhwystrau negyddol. Maen nhw yno am reswm, ond yn cael eu hystyried yn negyddol yn aml. Maen nhw'n gallu rhoi'r argraff bod sefydliad yn creu rhwystrau.
- Yn y cynllun terfynol, roedd ambell beth yn gyffredin yn yr hyn oedd yn cael ei ddweud h.y. 30 o bobl yn dweud bod angen mwy o fynediad at feddygon teulu - mae angen cynnwys hyn i roi cyd-destun i'r rheswm pam ei fod yn y cynllun - gallu uniaethu.
- Mae cludiant yn bwnc cyffredin ym mob un o'r 12 Maes Gweithredu ond nid yw'n cael ei grybwyll yn benodol.
- Mae datganiad yn y cynllun yn edrych ar yr agwedd Hawliau Plant.

Pwy ddylai gymryd rhan ym mhob grŵp Maes Gweithredu a pha gamau eraill y gellir eu hystyried?

Cafodd pob mynychwr amser i drafod pob un o'r 12 Maes Gweithredu wrth eu byrddau ac yna ymuno â gweithdy cylchdro i adael sylwadau ar siart droi yn ymwneud â'r cwestiynau canlynol:

- Pwy ydych chi'n meddwl dylai fod yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn?
- Pa weithgareddau eraill a ddylid eu hystyried?

Y 12 grŵp Gorchwyl a Gorffen a drafodwyd oedd:

1. Cyfathrebu
2. Cydweithio
3. Caffael
4. Rheoli asedau
5. Dechrau gorau mewn bywyd
6. Gwirfoddoli
7. Prentisiaethau
8. Cadw pobl yn iach ar hyd eu hoes
9. Cynllunio a sicrhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gynaliadwy a chyraeddadwy syn bodloni gofynion presennol a dyfodol ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd
10. Cymunedau cynaliadwy
11. Cymunedau mwy diogel
12. Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol yn lleol

Casglwyd llawer o wybodaeth fel rhan o'r cylchdro hwn a fydd yn cael ei rannu gyda'r Prif Swyddogion/Pencampwyr BGC ar gyfer pob Maes Gweithredu.



Y Gaerffili A GAREM THE Caerphilly WE WANT

Adroddiad Gweithdy Interact 23 Tachwedd 2017 – Maenordy Llancaiach Fawr

Cefndir a phwrpas y cyfarfod

Roedd y gweithdy hwn yn ail ymweliad â'r Rhwydwaith Interact i barhau â'r broses ymgynghori yn ystod datblygiad y Cynllun Lles. Ym mis Mawrth 2017, ymgynghorwyd â'r Rhwydwaith i gael eu barn ar y 6 maes datblygu ychwanegol arfaethedig.

Rhoddodd y sesiwn gyfle i adolygu'r Cynllun Drafft ac ystyried y 4 Amcan. Gofynnwyd i fynychwyr y gweithdai wneud sylwadau i nodi a yw'r camau cywir ar waith o fewn y Cynllun i gyflawni'r 4 Amcan, yn ogystal ag adnabod y camau allweddol sydd ar goll. Gofynnwyd hefyd i'r mynychwyr ystyried beth fydden nhw'n gallu ei wneud er mwyn sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd, fel unigolion ac fel rhan o'u cymunedau.

Dull

Bu dros 60 unigolyn sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y gweithdy, a hwyluswyd gan yr Uned Polisi Corfforaethol.

Rhannwyd y drafodaeth yn adrannau a oedd yn edrych ar y canlynol:

- Y stori hyd yn hyn - i gynorthwyo mynychwyr i ddeall cyd-destun a chefnidir y gweithdy.
- Beth yw eich barn ar y 4 Amcan a'r camau i'w cyflawni?
- Pa gamau sydd ar goll a pham y dylid eu cynnwys?
- Beth allech chi neu eich cymuned/sefydliad ei wneud i sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd?

Beth yw eich barn ar y 4 Amcan a'r camau i'w cyflawni?

Sylwadau Cyffredinol:

Yn gyffredinol roedd y Rhwydwaith yn cytuno gyda'r 4 Amcan ac yn teimlo eu bod yn ymwneud â "phob agwedd o les". Fe wnaethon nhw ychwanegu "mae defnyddio'r gair 'positif' yn galonogol yn enwedig gan nad yw pobl yn dueddol o fod yn hoff o newid".

Cafwyd nifer o ymholiadau ynglŷn â sut all sefydliadau trydydd sector fwydo i mewn/fod yn rhan o'r Meysydd Gweithredu a sut mae gwybodaeth yn cael ei adrodd yn ôl iddyn nhw, a

holwyd a allai hyn ddigwydd trwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG)?
Roedd mynychwyr yn teimlo bod perygl y byddai cysylltiad y trydydd sector yn gallu ymddangos yn symbolaidd ac anarwyddocaol.

Cafwyd nifer o ymholiadau ynglŷn â sut fydd targedau'n cael eu gosod a sut fydd y rhain yn gwrthdaro gyda thargedau/dangosyddion perfformiad presennol sefydliadau, gan greu blaenoriaethau sy'n cystadlu. Holodd y grŵp hefyd sut fyddai themâu trawsbynciol yn cael eu hadrodd/monitro megis trechu tlodi.

Newid Positif:

Cydnabuwyd fod cyfle i arferion caffael gael mwy o effaith ei gydnabod, yn ogystal â'r angen am hyfforddiant i ddefnyddio asedau ac adnoddau mewn modd mwy deallus.

Teimlwyd ei "bod yn braf cael arweinyddiaeth sy'n dilyn yr un polisiâu/gweithdrefnau. Pwynt negyddol allai fod [tynnu] cyfrifoldebau oddi wrth sefydliadau."

Cafwyd nifer o sylwadau am yr angen am ymgysylltiad ystyrion gyda phreswylwyr, sefydliadau a staff. Roedd nifer yn teimlo y dylai'r BGC "gyfathrebu negeseuon positif am y fwrdeistref sirol ar y cyd - gwrando ar breswylwyr/defnyddwyr gwasanaeth - mae'n ymddangos bod llawer o sylwadau negyddol yn cael eu gwneud am Gyngor Caerffili ar hyn o bryd, h.y. problemau gyda biniau ailgylchu, problemau gwaith ffordd ar gylchfan Caerffili, sylw yn y wasg am Brif Swyddogion ayb."

Dechrau Positif:

Roedd y grŵp yn teimlo ei bod yn dda bod ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth, ond nid ar draul prosiectau uwch/haen derfynol.

Roedd nifer yn teimlo bod codi ymwybyddiaeth yn allweddol ar gyfer ACE. Grymuso rhieni a staff i wybod am yr ACE a'u heffeithiau, a'r hyn y gallan nhw ei wneud i leihau'r effaith. Mae angen newid diwylliant i bobl sy'n cael profiad o ACE, a hwb cenedlaethol i ddod â'r holl wybodaeth ynghyd.

Pobl Bositif:

Roedd y Rhwydwaith yn cytuno bod prentisiaethau'n bwysig iawn - i oedolion a'r rhai gyda sgiliau ar lefel isel ac y byddai'n gadarnhaol pe byddai'r ystod oedran yn cynyddu i rai dros 25. Byddai hyn yn lleihau'r effaith ar y system lles ac yn lleihau cyllid mewn colegau ar gyfer oedolion. Pob partner i gynig lleoliadau, a gallant hefyd fod yn wirfoddolwyr.

Pwysleisiwyd yr angen i gael cydlynwyr i reoli a chefnogi gwirfoddolwyr. Angen gwneud gwirfoddoli'n ystyrion ac annog gwirfoddolwyr/llysgenhadon cymheiriaid rhieni i gau'r bwloch i annog teuluoedd i ymgysylltu mewn gwasanaethau (gan oresgyn y rhwystrau).

Lleoedd Positif:

Mynegodd y Rhwydwaith yr angen i ddiogelu a hybu cymunedau gan ddefnyddio ysgolion, dysgu ac annog plant ifanc, cadw gwefannau'n gyfredol a defnyddio byrddau arddangos. Dod â'r gymuned i mewn i'r gwasanaeth a thargedu pob cymuned o safbwynt ehangach.

Pa gamau sydd ar goll a pham y dylid eu cynnwys?

- Darparwyr addysg i greu cyswllt gyda chyflogwyr.
- Mae angen digwyddiadau rhwydweithio/mwy o ddigwyddiadau partneriaeth er mwyn ymgysylltu/rhwydweithio.
- Hoffem weld mwy o gefnogaeth ar gyfer plant ifanc - penodol ar gyfer oedran.
- System atgyfeirio cyflym i blant gyda phroblemau iechyd meddwl (plant ifanc), a mwy o gefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl.

Beth allech chi neu eich cymuned/sefydliad ei wneud i sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd?

- Mae sefydliadau'r Rhwydwaith Interact eisiau bod yn rhan o'r cynllun hwn. Gall sefydliadau'r Rhwydwaith Interact hwyluso ymgysylltiad. Gallant ddarparu barn rhieni/preswylwyr/staff. Dylai defnyddwyr gwasanaethau fod yn bwysicach na thargedau - deilliannau meddal.
- Dylai Meysydd Gweithredu wahodd asiantaethau gwirfoddol/statudol i roi eu safbwynt - meysydd arbenigol. Dylai'r BGC ymweld â sefydliadau. Dylai gwybodaeth o werthusiadau'r sefydliadau eu hunain gael eu bwydo i'r sianeli priodol.
- Mwy o hyblygrwydd o fewn y gweithlu i gydweithio mwy, llai o weithio'n unigol, gormod o bwyslais ar ystadegau/targedau, gormod o ddibyniaeth ar godau post. Defnyddio gweithwyr rheng flaen o sefydliadau gwahanol mewn ymdrech amlasiantaethol i ymgysylltu â phreswylwyr a darparu gwybodaeth o brofiad ymarferol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- Gwirfoddoli/prentisiaethau - Gall pob partner gefnogi trwy ddarparu cyllid, cymwysterau a mentora un i un.
- Defnyddio grym cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth yn y gymuned.



Y Gaerffili A GAREM THE Caerphilly WE WANT

Cefndir a phwrpas y cyfarfod

Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i grwpiau sy'n ymwneud â'r prosiect Valleys Voices gymryd rhan yn y broses ymgynghori ynglŷn â'r Cynllun Lles. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Gymdeithas Strôc, Mind Bwrdeistref Caerffili a Phobl yn Gyntaf Caerffili (PGC).

Rhoddodd y cyfarfodydd gyfle i adolygu'r Cynllun Drafft ac ystyried y 4 Amcan. Gofynnwyd i fynychwyr y gweithdai wneud sylwadau i nodi a yw'r camau cywir ar waith o fewn y Cynllun i gyflawni'r 4 Amcan, yn ogystal ag adnabod y camau allweddol sydd ar goll. Gofynnwyd hefyd i'r mynychwyr ystyried beth fydden nhw'n gallu ei wneud er mwyn sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd, fel unigolion ac fel rhan o'u cymunedau.

Dull

Bu cyfanswm o 32 unigolyn yn cymryd rhan ar draws y pedwar cyfarfod, a hwyluswyd gan swyddogion o brosiect Valleys Voices.

Rhannwyd y drafodaeth yn adrannau a oedd yn edrych ar y canlynol:

- Y stori hyd yn hyn – i gynorthwyo mynychwyr i ddeall y cyd-destun a chefnidir y gweithdy
- Beth yw eich barn ar y 4 Amcan a'r camau i'w cyflawni?
- Pa gamau sydd ar goll a pham y dylid eu cynnwys?
- Beth allech chi neu eich cymuned/sefydliad ei wneud i sicrhau bod y 4 Amcan yn digwydd?

2 Tachwedd 2017 - Pobl yn Gyntaf Caerffili (PGC), Bargod (7 oedolyn gydag anabledau dysgu a 3 gweithiwr cefnogi)

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Newid Positif?

Cytuno = 9

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Newid Positif?

Cyfathrebu - pwy ddylai ddweud wrth bob am y nodau a sut ydyn ni'n annog pobl i gymryd rhan?

- Gwrando ar lais PGC a'u teuluoedd a'u ffrindiau - fe wnawn ni gyrraedd rhywle yn y pen draw!

- Cynnwys wardeiniaid cymunedol - cyswllt hanfodol rhwng yr heddlu a'r gymuned.
- Dylai'r sefydliadau sy'n cynorthwyo a chefnogi pobl gydag anawsterau dysgu i fyw bywyd annibynnol gael eu cynnwys. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - REACH
 - Partneriaeth gofal
 - Gwasanaethau cefnogi North Valley
 - Pobl yn gyntaf Cymru Gyfan
 - Track
- Hefyd dylai'r BGC fod yn ymwybodol o 'Siarter Gwent ar gyfer Gweithio gyda'n Gilydd' (Gwent Charter for Working Together).
- Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos diffyg ymwybyddiaeth o swyddogion proffesiynol Statudol, busnesau ac aelodau cymunedol eraill wrth gwrdd ag oedolion gydag Anawsterau Dysgu.
 - Cyfathrebu gyda doctoriaid/nyrsys i helpu i ddeall sut deimlad yw ymdrin â phobl gydag anawsterau dysgu - "wnaethon nhw ddweud wrth mam i'm rhoi mewn cartref allan o'r ffordd".
 - Gwahaniaethu yn erbyn pobl gydag Anableddau Dysgu yn Weatherspoon's - roedd cwsmeriaid eraill yn meddwl ei bod yn feddw oherwydd y ffordd yr oedd hi'n siarad ac fe wnaethon nhw gwyno, a daeth aelod o staff draw a gofyn am brawf adnabod. Cafwyd ymddiheuriad ac fe gawson nhw daleb gwerth £50 ond roedd yn rhaid gweithio'n galed er mwyn datrys y cwyn.
 - Mae byrddau newydd yn y caffi yn Morrisons Caerffili a phan aeth i eistedd yno, gofynnwyd a oedd y person yn anabl. Nid yw'r person wedi bod yn ôl gan ei fod wedi cael ei bechu.
- Wrth aros mewn ciw mewn coleg, fe gyhoeddodd y person a oedd yn gyfrifol yn uchel fod angen i bobl gydag anableddau dysgu fynd gyntaf, gan achosi embaras, ac nid oes angen hyn gan eu bod yn gallu aros fel pawb arall.
- Mae angen i fusnesau gael hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.

Gweithio gyda'n gilydd - pa sefydliadau a grwpiau cymunedol ddylai gymryd rhan?

- Mae angen cael swyddogion proffesiynol ar y lefel ganol o fewn Gwasanaethau Statudol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol i weithio gyda ni.
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
- Pobl yn Gyntaf Caerffili a Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan i gynrychioli oedolion gydag anableddau dysgu
- Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu
- Comisiynydd yr Heddlu
- Ymladdwyr Tân
- Meddygon
- Gwasanaeth Ambiwlans
- Gwarchod cymdogaeth
- Cadw Cymru'n Daclus
- Gwasanaethau'r Gymuned i dacluso graffiti ayb.
- Rhaglen ymwybyddiaeth Mind (MAP)

Arian - sut all y sefydliadau arbed arian trwy gydweithio?

- Caniatáu i sefydliadau eraill ddefnyddio gofod swyddfa
- Rhannu peiriannau argraffu ac offer TG
- Rhannu'r hyn sydd gennym - e.e. mae Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc Bargod yn rhentu gofod i PGC.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Dechrau Positif?

Cytuno = 9

*A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Dechrau Positif?*Y dechrau gorau mewn bywyd - sut all y BGC weithio gyda'i gilydd i helpu rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn?

- Os ydych wedi cael plentyndod anodd ac yna'n mynd i drafferthion pan fyddwch yn hŷn, mae'n bosibl y bydd angen cefnogaeth arnoch pan fyddwch yn hŷn hefyd.
- Mwy o gefnogaeth i rieni yn hytrach na mynd â phlant oddi ar rieni.
- Cefnogaeth i deuluoedd i gadw plant yn yr ysgol.
- Noder: mae 70% o'r bobl yng Ngharchar y Parc yn dioddef anawsterau dysgu.
- Mae pobl gydag anabledau angen mwy o gefnogaeth gyda phlant er mwyn bod yn rhieni da.
- Mae rhai pobl ifanc yn cynnau tanau - pwy sy'n helpu? - Gwasanaeth Tân, ambiwlans, yr heddlu, ond mae angen iddo ddod gan y rhieni yn y lle cyntaf.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Pobl Bositif?

Cytuno = 9

*A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Pobl Bositif?*Gwirfoddoli - Beth sy'n dda am wirfoddoli ac a oes unrhyw beth arall a fyddai'n helpu i'ch cefnogi i fod yn wirfoddolwr?

- PGC yn wirfoddoli ac annog eraill.
- Pan oeddwn i'n gweithio mewn siop elusen, cefais fy rhoi o'r golwg i fyny'r grisiau'n smwddio dillad, ond erbyn hyn rwy'n gweithio yn y siop ac yn mwynhau fy hun.

Rhaglenni prentisiaeth - a oes unrhyw swydd yr hoffech gael eich hyfforddi i wneud?

- Mae'n anodd canfod swydd ac os ydych chi'n llwyddo ond nad yw pethau'n gweithio allan, mae angen i chi gael eich asesu eto i dderbyn budd-daliadau - weithiau mae pobl ofn cymryd y risg o ddod oddi ar y budd-daliadau.
- Mae'n bwysig cael cynrychiolwyr o'r Ganolfan Byd Gwaith/asiantaeth budd-daliadau/ Cyngor ar Bopeth ar unrhyw fenter prentisiaeth neu gyflogaeth, fel bod modd i bobl dderbyn cyngor priodol e.e. os bydd oedolyn yn cael cynnig swydd 16 awr yr wythnos neu swydd tymor byr 6 mis/blwyddyn.

Cadw pobl yn iach wrth nesáu at henaint - beth yw'r ffordd orau o annog pobl i fyw'n fwy iach?

- Ni wnaeth y gweithiwr cefnogi roi cymorth i mi goginio a wnaeth hynny ddim ei helpu hi i wneud beth oedd hi eisiau.

- Doeddwn i ddim eisiau cymryd tabledi i helpu i golli pwysau, roeddwn i ofn mynd yn gaeth. Felly roeddwn yn bwyta llai o fwyd gan ddilyn cyngor cwrs Bwyta'n Iach Cymunedau'n Gyntaf, ac rwyf bellach yn teimlo'n fwy iach ac rwyf wedi colli pwysau.
- Mae'r gegin yn PGC yn cael ei ddefnyddio i ddysgu sgiliau coginio sylfaenol i'r aelodau.
- Byddaf yn mwynhau mynd i'r Gampfa bob dydd Mawrth ac rwyf wedi colli pwysau.
- Roedd rhai aelodau'n cadarnhau bod ganddynt Fitbit.
- Mae cerdded gyda Groundwork wedi cynorthwyo un aelod i gerdded mwy a chario ei siopa adref. Mae hi bellach wedi colli pwysau ac yn teimlo'n well.
- Bydd cael anifeiliaid anwes yn helpu lles rhai aelodau.

Gwasanaethau Iechyd a Lles - pan fyddwch yn mynd at y meddyg/ysbyty/cwrdd â gweithiwr cymdeithasol, mae rhai ohonynt yn dda ac eraill ddim cystal. Beth sy'n gwneud y rhai da mor dda - gwneud i chi eu hoffi nhw, teimlo eu bod yn gwrando ac eisiau gweithio gyda nhw?

- Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n llawer gwell gyda PGC nag ers talwm. Roedden nhw'n arfer dweud wrthym ni beth i wneud, ond maen nhw'n gwrando pan fyddwn ni'n siarad erbyn hyn.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Lleoedd Positif?

Cytuno = 9

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Lleoedd Positif?

Tai

- Yng Nghoed Duon mae nifer o'r tai wedi cael eu bordio ac yn cael eu defnyddio gan droseddwr h.y. gwerthwyr cyffuriau. Ni all y cyngor wneud dim gyda'r eiddo hyn ac nid ydynt yn cael eu defnyddio pan fo llawer o bobl ddi-gartref yng Nghaerffili. Byddai modd eu hatgyweirio a gallai pobl symud i mewn, ond wedyn rydych yn rhoi pobl mewn ardal wael yng nghanol trosedd.
- Problem gydag oedolion bregus yn cael eu cartrefu mewn ardaloedd gyda chyfradd uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd - ardaloedd daearyddol rhad ar gyfer Cymdeithasau Tai i adeiladu cartrefi?

Caerffili mwy diogel - Sut allwn ni wneud ein cymuned yn fwy diogel a'ch gwneud chi deimlo'n fwy diogel?

- Teimlo nad oes grym i allu atal tân, tipio anghyfreithlon, gyrru oddi ar y ffordd.
- Mae trosedd casineb yn broblem yng Nghaerffili, roedd rhai aelodau wedi cael profiad ohono.
- Mae graffiti yn broblem fawr yng Nghaerffili.
- Pan fyddwch yn ffonio 101, mae oedi hir cyn iddyn nhw ddod allan, weithiau ni ddaw neb nes y diwrnod canlynol.
- Tîm gwyllo'r gymuned - mae cymydog un aelod yn gofalu am ei hanifeiliaid anwes pan fydd yn mynd ar wyliau. Dylai pobl ofalu am ei gilydd.
- Mae PGC wedi dioddef Seiber drosedd ac roeddent wedi derbyn cyflwyniad gan yr heddlu, ond nod ydynt wedi gallu cael gafael arno wedyn, mae angen i bawb ledaenu'r neges a gweithio gyda'i gilydd.

- Ydyn nhw'n dysgu seiber drosedd yn y Coleg? Na, dim ond os ydych yn cwblhau lefelau 1-3 ac yna'n symud ymlaen i ddilyn cwrs TG. Nid oedd rhai aelodau'r PGC yn gwybod beth oedd seiber drosedd. Sut all pobl ddiogelu eu hunain ar lein os nad ydynt yn ymwybodol o'r peryglon - mwy o adnoddau i godi ymwybyddiaeth o seiber drosedd.

Diogelu ardaloedd gwyrdd Caerffili - ydych chi'n ymweld â pharciau, ac a ydyn nhw'n hawdd eu cyrraedd? Sut all pobl gadw afonydd parciau a mynyddoedd i edrych ar eu gorau nawr ac at y dyfodol?

- Arsylwad: Mae rhai pobl ifanc yn difrodi parciau yng Nghaerffili.

30 Tachwedd 2017 - Cymdeithas Strôc, Coed Duon (15 o fynychwyr)

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Newid Positif uchod?

Dim adborth

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Newid Positif?

Dim sylwadau.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Dechrau Positif?

Cytuno = 15

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Dechrau Positif?

Y dechrau gorau mewn bywyd - sut all y BGC weithio gyda'i gilydd i helpu rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn?

- Mae angen swydd dda arnynt, nid addysg yn unig.
- Dylent gael eu magu gyda gwell agwedd, angen mwy o barch, angen mwy o ddisgyblaeth.
- Llai o dechnoleg, mwy o amser un i un gyda rhieni ac oedolion.
- Pan fydddech yn gweld plismon ers talwm, bydddech wedi rhedeg i ffwrdd, ond nawr nid oes parch tuag at awdurdod.
- Dylai staff dysgu osod esiampl trwy eu dillad.
- Mae plant wedi colli parch tuag at eu rhieni a'u tad-cu a mam-gu. Mae angen iddynt ddysgu gwell cwrteisi.
- Mae plant yn cael eu maldodi'n ormodol ac nid ydynt yn dysgu'r pethau gwirioneddol sylfaenol yn yr ysgol.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Pobl Bositif?

Cytuno = 15

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Pobl Bositif?

Gwirfoddoli - Beth sy'n dda am wirfoddoli ac a oes unrhyw beth arall a fyddai'n helpu i'ch cefnogi i fod yn wirfoddolwr?

- Dydd lau yw diwrnod gorau'r wythnos i mi gan fy mod yn gallu cael wythnos wael, ond mae dod yma i'r grŵp fel gwirfoddolwr yn rhoi cyfle i chwerthin a rhannu ein newyddion, ac rwy'n mynd adref yn teimlo 100% yn well.
- Heb wirfoddolwyr, byddem yn cael traferth dod yma unwaith yr wythnos.
- Nid grŵp ydym ni ond teulu.

Cadw pobl yn iach wrth nesáu at henaint - beth yw'r ffordd orau o annog pobl i fyw'n fwy iach?

- Rydym yn dal o fewn cyfnod pan fo pobl wedi bod yn gweithio yn y pyllau ayb. sydd wedi dylanwadu ar iechyd a marwolaethau. Wrth edrych ymlaen, mae'n bosibl y bydd hyn yn newid ac mae'n bosibl y bydd gennym lai o anghydraddoldeb ar draws bwrdeistref Caerffili.
- Annog pobl i wneud ymarfer corff, mynd allan a pheidio ag eistedd o flaen y teledu, bwyta'n iach, mynd â phlant i'r parc ayb.

Gwasanaethau lechyd a Lles - pan fyddwch yn mynd at y meddyg/ysbyty/cwrdd â gweithiwr cymdeithasol, mae rhai ohonynt yn dda ac eraill ddim cystal. Beth sy'n gwneud y rhai da mor dda - gwneud i chi eu hoffi nhw, teimlo eu bod yn gwrando ac eisiau gweithio gyda nhw?

- Yr hyn sy'n bwysig yw agwedd y Gweithiwr lechyd tuag atoch chi, ers talwm, roedden nhw'n eich adnabod chi fel person, ac nid fel rhif.
- Dydw i ddim eisiau aros am gyfnod hir am ganlyniadau profion, os fyddwn ni'n mynd am sgan, nid ydym ni eisiau aros 6 wythnos am y canlyniadau (profiad un aelod), mae rhai lluniau sgan yn cael eu hanfon i Awstralia a'r canlyniadau ar gael ymhen 24 awr (profiad aelod arall).
- Roedd y Meddyg yn gwybod eich enw yn y gorffennol, nid yw'r Meddyg yn ymweld â'r cartref bellach, yn hytrach mae angen i ni ffonio 999 neu'r gwasanaeth ambiwlans, ac nid yw'n ymateb.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Lleoedd Positif?

Cytuno = 15

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Lleoedd Positif?

Caerffili mwy diogel - Sut allwn ni wneud ein cymuned yn fwy diogel a'ch gwneud chi deimlo'n fwy diogel?

- Gweld mwy o heddlu ar ddyletswydd.
- Gwell golau stryd.
- Nid yw pobl yn fodlon talu'r cyngor i gasglu sbwriel felly mae hyn yn annog tipio anghyfreithlon.
- Ni allwch stopio tân gan ei fod yn ddrygioni ac mae plant yn ei fwynhau.
- A yw'r frigâd dân yn mynd i'r ysgolion i addysgu plant ynglŷn ag effaith tân ar fywyd gwyllt?

Diogelu ardaloedd gwyrdd Caerffili - ydych chi'n ymweld â pharciau, ac a ydyn nhw'n hawdd eu cyrraedd? Sut all pobl gadw afonydd parciau a mynyddoedd i edrych ar eu gorau nawr ac at y dyfodol?

- Mae gan nifer o aelodau'r Clwb Strôc anabledau - gallwn ddefnyddio parciau fel rhan o deithiau wedi'u trefnu ymlaen llaw ond mae'n anodd ar ein pennau ein hunain, byddai'n ddefnyddiol i gael llwybrau tarmac a dim grisiau.

12 Rhagfyr 2017 - Mind Bwrdeistref Caerffili, Lansbury Park, Caerffili (5 mynychwr gyda phroblemau iechyd meddwl a 2 swyddog prosiect)

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Newid Positif?

Cytuno'n gryf = 7

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Newid Positif?

Dim sylwadau.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Dechrau Positif?

Cytuno'n gryf = 7

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Dechrau Positif?

- Ni ddylid trin plant yn well oherwydd bod gan y rhieni fwy o arian a'u bod yn gallu eu hanfod i ysgolion preifat, dylai pob plentyn gael cydraddoldeb o ran addysg.
- Mae angen cefnogaeth gyda materion iechyd meddwl ar blant o bob oedran, gan fod profiadau gwael yn ifanc yn gallu effeithio'r person trwy gydol ei oes os nad ydynt yn cael cymorth i ymdrin â'r mater. Dylid lleoli swyddogion iechyd meddwl arbenigol i blant mewn ysgolion i ganfod problemau'n gynnar a'i atal rhag gwaethygu a pheidio ag aros nes bod problemau'n cyrraedd pwynt argyfwng.
 - Sylwadau: '... cefais brofiad a newidodd fy mywyd pan oeddwn yn 6 mlwydd oed, ac ni chefais help i ddelio â'r hyn ddigwyddodd y diwrnod hwnnw ac mae wedi effeithio arna i drwy gydol fy oes fel oedolyn, ac mae'n dal i effeithio arna i nawr'
 - Gwelodd plentyn yng Nghaerffili ei mam yn marw yn y cartref, pan oedd yn chwe blwydd oed yn unig - roedd hi ar ei phen ei hun gyda phlentyn iau ac roedd rhaid iddi fynd i'r stryd i ddweud wrth ddieithryn nad oedd ei mam yn gallu deffro. A oes unrhyw un ar gael yn ystod y diwrnod ysgol - sy'n meddu ar y sgiliau cywir - y gall plentyn sy'n cael trafferthion siarad â nhw?
- Stori o helpu ei hunan: 'Cefais lyfr yn breifat a fu o gymorth i fy merch gydag iselder, o'r enw "The Cloud that Couldn't Cry"

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Pobl Bositif?

Cytuno'n gryf = 8

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Pobl Bositif?

- Roedd gan fy merch broblemau iechyd meddwl sylweddol yn ei harddegau ac nid oedd cefnogaeth ar gael yng Nghaerffili lle'r oedden ni'n byw. Gan nad wyf yn gyrru, roedd yn rhaid iddi gael tacsï wedi'i ariannu bob dydd i fynd i Gaerleon i dderbyn gofal llawn amser am 6 mis. Roedd hyn yn ddruod i'r GIG ac fe achosodd lawer o straen a phoen meddwl ychwanegol iddi orfod cyfarfod â gyrwyr tacsï gwahanol bob dydd. Mae hyn yn fater enfawr i rywun sydd eisoes yn dioddef problemau pryder difrifol, ond nid oedd hynny'n cael ei ddeall. Pe byddai gofal ar gael yng Nghaerffili, rwy'n credu y byddai wedi gwella'n gynt. Yn 18 oed, daeth y gwasanaeth i ben yn sydyn p'un ai oedd hi'n well ai peidio! Mae hyn yn achosi pryder i rywun sy'n dioddef cyflwr iechyd meddwl gan eu bod newydd ddysgu ymddiried mewn pobl ac yna'n wynebu gorfod dechrau o'r dechrau eto gyda thîm arall o weithwyr iechyd proffesiynol.
- Pan oedd angen gwasanaeth cwnsela arna i yn dilyn salwch, es i at fy Meddyg Teulu, a dywedodd wrtha i y byddai angen i mi aros 6-7 mis ar y GIG ac yn y cyfamser i fynd i'r sinema neu fynd am dro! Wnaeth o ddim fy nghyfeirio at unrhyw wasanaethau eraill megis grwpiau dan ofal Mind neu elusennau eraill. Roedd yn rhaid i mi wneud fy ngwaith ymchwil fy hun ynglŷn â'r help oedd ar gael. Dechreuais fynychu grŵp Mind unwaith yr wythnos ac roedd o'n help mawr i siarad gydag a gwrando ar bobl eraill a oedd yn wynebu salwch tebyg. Mae pobl sydd wedi cael problemau iechyd meddwl yn fy neall i'n well na phobl broffesiynol! Aeth pethau mor wael fel nad oeddwn yn gweithio am 18 mis, pe byddem wedi cael help ynghynt, dydw i ddim yn meddwl y bydden i wedi bod i ffwrdd cyhyd.
- Roeddwn i'n gweld Cymunedau'n Gyntaf yn ddefnyddiol iawn pan es i'n sâl gan fy mod yn gwybod y gallwn alw heibio ac y byddai rhywun yn siarad gyda mi a bod yn gyfeillgar. Rydw i'n gwirfoddoli yno bellach.
- Mae gen i Anhwylder Gorfodol Obsesiynol difrifol ac ar fy nghyfnod mwyaf isel, wnes i ddim gweithio am 6 mlynedd ac roeddwn yn ei chael yn anodd iawn i gael unrhyw gymorth gyda'm salwch. Rydw i bellach yn mynychu grŵp wythnosol dan ofal Mind sydd o gymorth ac rwyf bellach yn gweithio rhan amser, sy'n anodd iawn i mi ambell ddiwrnod.
- Bûm yn gweithio am sawl blwyddyn mewn siop elusen leol ac mae hyn wedi fy nghynorthwyo i gael swydd hir dymor mewn siop.
- Mae cau'r swyddfa Cymunedau'n Gyntaf yng Nghaerffili wedi cael effaith fawr arnom ni gan fy mod yn gwybod y byddai rhywle y gallwn fynd os oeddwn i'n cael diwrnod gwael.
- Mae'r ffordd yr ydych yn byw eich bywyd yn bwysig o ran hyd eich bywyd.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Lleoedd Positif?

Cytuno'n gryf = 7

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Lleoedd Positif?

Dim sylwadau.

13 Rhagfyr 2017 - Mind Bwrdeistref Caerffili, Coed Duon (5 mynychwr gyda phroblemau iechyd meddwl a 2 swyddog prosiect)

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Newid Positif?

Cytuno'n gryf = 7

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Newid Positif?

- Nodyn yn ymwneud ag asedau adeiladau - os bydd rhywun yn cael ei arestio yng Nghaerffili, mae'r heddlu'n cludo'r troseddwr honedig i Swyddfa'r Heddlu yng Nghasnewydd. Ar ôl cael ei ryddhau, mae'n rhaid i'r person ganfod ei ffordd ei hunain yn ôl i Gaerffili.
- Mae'r Swyddfeydd Heddlu lleol yn Rhisga, Coed Duon ayb yn gallu ymdrin ag ymholiadau'n unig - meddwl bod hyn yn wastraff arian.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Dechrau Positif?

Cytuno'n gryf = 7

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Dechrau Positif?

- Wrth ddechrau teulu newydd, mae anawsterau gyda'r dreth ystafell wely - nes i'r plentyn fod yn flwydd oed, mae'r tenant yn atebol i dalu treth ystafell wely. Fodd bynnag, pan fo'r plentyn yn hŷn, nid yw'r dreth yn berthnasol bellach. Nid yw teuluoedd eisiau symud tŷ er mwyn gorfod osgoi treth ystafell wely ychwanegol - mae gorfod symud yn drafferthus i fywyd teuluol ac addysg plant.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Pobl Bositif uchod?

Cytuno'n gryf = 7

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Pobl Bositif?

Gwirfoddoli

- Manteision o ran lles o ganlyniad i wirfoddoli - teimlad braf wrth helpu eraill. Sylwadau: 'Roedd o'n gwneud i mi deimlo'n dda pan oeddwn i'n fyfyrwr i dreulio amser gyda phobl ddigartref/pobl mewn Cartrefi Gofal, yn steilio eu gwallt a rhoi triniaethau harddwch' (wedi'i drefnu trwy'r coleg).
- Bûm yn gwirfoddoli am gyfnod o 5 mlynedd ar ran elusen iechyd meddwl, ac yna cefais gyfle i weithio gyda'r sector - roedd gwirfoddoli'n help mawr i adeiladu hyder a phrofiad. Dyma beth gynorthwyodd fi i gael y swydd - rwyf wedi bod mewn cyflogaeth hirdymor ers dros 3 blynedd.

Prentisiaethau/cyflogaeth

- Ar ôl hyfforddi am dair blynedd yn y coleg ym maes trin gwallt, methu dod o hyd i swydd mewn Salon - gormod o gymwysterau gan fod cyflogwyr yn chwilio am weithwyr iau 16 mlwydd oed, sy'n rhatach a heb gymwysterau. Rwyf bellach wedi dychwelyd i'r coleg i wneud cymwysterau iechyd a Harddwch ychwanegol gyda'r gobaithe o gael swydd yn lleol.

- Mae'n anoddach dod o hyd i swydd fel person ifanc os nad ydych yn gyrru - nid yw cludiant cyhoeddus bob amser yn gallu mynd â chi i'ch swydd ar yr adeg iawn a methu fforddio gwersi/prawf gyrru/car.
- Roedd Caerffili'n rhedeg menter ychydig flynyddoedd yn ôl i ddarparu moped i bobl ifanc fel modd o allu sicrhau cyflogaeth - mae anghenion wedi newid ond mae'r fenter hon wedi dod i ben heb unrhyw beth yn ei le.
 - Mae angen cymhelliant ar bobl ddi-waith fel oedd y Canolfannau Gwaith yn eu cynnig:
 - Help gyda chostau teithio
 - Help i brynu dillad ar gyfer cyfweliad

Gwaith Tymhorol

- Profiad gwael - cyflogwyr yn eich defnyddio pan maen nhw'n dymuno.
- Cyflog gwael i weithwyr ifanc iawn - wedi gweithio drwy'r dydd mewn caffi am £20.

lechyd

- Nodyn gan ysmygwr ifanc: 'Byddai'n ddefnyddiol gwybod pa help sydd ar gael i gefnogi pobl i roi'r gorau i ysmegu.' Nid oedden nhw'n ymwybodol o'r gefnogaeth a oedd ar gael gan y bwrdd lechyd na'r trydydd sector.

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r Amcan Lleoedd Positif?

Cytuno'n gryf = 7

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Amcan Lleoedd Positif?

- Mae'r Cymoedd yn edrych yn arbennig yn yr eira.
- Stopiwch gymryd ardaloedd gwyrdd i'w ddefnyddio ar gyfer datblygu tai.
- Ddim yn hoffi pan fo'r heddlu'n symud pobl ddigartref yn eu blaen - does ganddyn nhw unman arall i fynd.



Y Gaerffili A GAREM THE Caerphilly WE WANT

Gweithdy BGC - 5 Rhagfyr 2017

Cefndir a phwrpas y cyfarfod

Dechrau ar y broses o ddatblygu fframwaith ar gyfer cynllun darparu Lles Caerffili. Mae'r broses yn cael ei alw'n 'Fframwaith Atebolrwydd Perfformiad' a bydd yn anelu at fesur cynnydd yn erbyn y Cynllun Lles.

Pwrpas y sesiwn oedd datblygu dealltwriaeth o sut mae'r BGC yn dymuno derbyn gwybodaeth a pha fath o wybodaeth fydden nhw'n dymuno ei weld er mwyn deall a yw'r meysydd gweithredol yn gwneud gwahaniaeth. Rhannwyd hyn yn dair rhan:

- Sicrhau cytundeb ynglŷn â ph'un a oedd mynychwyr yn cytuno gyda'r meysydd gweithredu a awgrymwyd a'r ffordd orau i'w darparu.
- Beth yw'r ffordd orau ym marn y grŵp i'r BGC ddangos perchnogaeth ac arweinyddiaeth o'r Cynllun? (pwy fyddai'n berchen ar ba faes)
- Cytuno ar y dulliau a'r mesurau penodol ar gyfer adrodd

Methodoleg

Cynhaliwyd y gweithdy ar 5 Rhagfyr 2017 i aelodau'r BGC, wedi'i hwyluso gan yr Uned Polisi Corfforaethol. Cafwyd cyflwyniad yn diweddarau mynychwyr ynglŷn â'r stori hyd yma, gyda thrafodaeth i ddilyn yn ymwneud â'r pynciau canlynol:

- Y Meysydd Gweithredu arfaethedig (i gytuno ar nifer y Meysydd Gweithredu a'r hyn y byddant yn eu cynnwys).
- Cyd-destun ac ystyriaethau rhanbarthol
- Cytuno ar ddull a chytuno pwy fydd yn Arwain ar bob maes gweithredu

Rhodddwyd cyflwyniad wedyn i fynychwyr ynglŷn â sut oedd adroddiadau blaenorol wedi gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Chynllun Integredig Unigol. Roedd y cyflwyniad yn adnabod cryfderau a'r hyn sydd angen ei wella o fewn y system bresennol. Derbyniodd mynychwyr friff ar yr adborth a dderbyniwyd o weithdy blaenorol a gynhaliwyd gyda chasglwyr data a'r rhai sy'n adrodd ar ddata o ran eu barn ynglŷn â'r ffordd orau i fesur. Arweiniodd hyn at drafodaeth bellach ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer fframwaith mesur posibl a beth allai weithio ar gyfer y BGC.

Sesiwn Drafod 1

Cyn y gweithdy, roedd y 12 Maes Gweithredu yn y Cynllun Lles Drafft wedi cael eu hail ddrafftio i'w gwneud yn fwy cryno a chafwyd awgrymiadau posibl i leihau'r nifer i 9, gan gyfuno rhai o'r Meysydd Gweithredu. Roedd mynychwyr yn cytuno â'r awgrymiadau ac yna'n cytuno i newid disgrifiad y 4 Maes Gweithredu canlynol i fod yn Alluogwyr:

- Cyfathrebu
- Cydweithio
- Caffael
- Rheoli asedau

Roedd mynychwyr yn teimlo bod y rhain yn well fel 'galluogwyr' neu egwyddorion sylfaenol a fyddai'n cynorthwyo'r Meysydd Gweithredu eraill. Er enghraifft, byddai caffael ar y cyd er mwyn darparu gwerth am arian yn gofyn am weithio'n dda gyda'ch gilydd, ac felly nid oedd angen bod yn Faes Gweithredol ohono'i hun, ond yn hytrach yn egwyddor sylfaenol. Fodd bynnag, byddai angen pwyntiau gweithredu ar gyfer pob un o'r Galluogwyr, gan na fyddai dim yn digwydd fel arall.

Bu mynychwyr yn trafod a allai Pencampwyr BGC hefyd arwain ar y Meysydd Gweithredu. Buont yn trafod manteision ac anfanteision cael rhywun gydag arbenigedd mewn maes penodol o'i gymharu â chael person sy'n newydd i'r maes a fyddai'n meddu ar safbwynt gwahanol. Cytunwyd bod angen ymrwymiad y BGC cyfan i weithio ar bob un o'r camau gweithredu.

Bu mynychwyr yn trafod posibilrwydd newid yr Arweinwyr un ar ôl y llall, er mwyn gweld beth sy'n gweithio orau, neu i ddechrau gydag arbenigwr a newid wedyn. Cytunwyd mai'r canlynol fydd yr Arweinwyr ar gyfer pob Maes Gweithredu:

1. Dechrau gorau mewn bywyd	Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)
2. Gwirfoddoli/prentisiaethau	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG)
3. Iechyd a lles da	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)
4. Cymunedau mwy diogel a chynaliadwy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC)
5. Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol yn lleol	Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

2il Sesiwn Drafodaeth

Rhoddwyd cyflwyniad yn ymwneud ag adrodd, gyda thrafodaeth i ddilyn a oedd yn holi 'beth fyddai'n gweithio i chi?' Gofynnwyd i fynychwyr ystyried sawl ffordd o adrodd, megis:

- Math o adrodd: A ddylid safoni adroddiadau mewn perthynas â phob Maes Gweithredu? A yw un ffordd yn addas ar gyfer popeth?
- A ddylai pob Maes Gweithredu gael rhyddid i osod eu mesurau eu hunain, neu a ddylid gosod egwyddorion wedi'u safoni?
- Pwy ddylai fod yn berchen ar yr elfen adrodd?
- Sut dylid ei gyflwyno?

- Sut ydym ni'n goresgyn anawsterau o wahanol sefydliadau'n gorfod adrodd fwy nag unwaith i gynulleidfaoedd eraill neu ardaloedd eraill? e.e. adrodd rhanbarthol neu adrodd yn lleol.
- Amseru: Pa mor aml y dylid adrodd ar gynnydd? Strwythur v materion sy'n codi?

Yn gyffredinol, cytunwyd y byddai'n anoddach cytuno ar fanylion penodol (edrychiad a theimlad yr adroddiad) nes i fanylion y Meysydd Gweithredu gael eu cytuno, ond awgrymwyd y canlynol fel egwyddorion cyffredinol:

Cyffredinol

- Byddai'r BGC yn gosod 'egwyddorion' adrodd diffiniedig. Byddai hyn yn caniatáu pob Galluogwr a Maes Gweithredu i osod eu mesurau eu hunain ond o fewn set o egwyddorion cytûn. Byddai hyn yn cynnig hyblygrwydd i Grwpiau Gweithredu unigol osod fel bo'n briodol gyda strwythur cyffredinol.
- Egwyddor allweddol - mae'n rhaid cael cymysgedd o fesurau perthnasol, ond y prif bryder oedd bod angen i'r mesurau a ddewisir fod yn ystyrlon a dangos a ydym ni'n gwneud gwahaniaeth.
- Bydd ambell Faes Gweithredu'n cynnwys nifer o fesurau ac eraill yn cynnwys llai, neu gallant fod yn fathau gwahanol, ond nes bydd y canlyniadau a'r diben yn cael eu pennu, nid oes modd penderfynu ar y mathau o fesurau penodol.
- Mae hyn yn golygu symud oddi wrth fesuriadau neu ddata'n unig; er, roedd rhai mynychwyr yn teimlo bod angen rhai mesurau lleol a rhai mesurau Cymru gyfan fel bo'n briodol.
- Mae angen i bwrrpas yr adroddiadau fod yn glir, gan nad yw'r BGC angen adroddiad ar bopeth.
- Defnyddio adroddiadau eithriad gyda phwyntiau allweddol, neu fel arall, ni fydd materion pwysig eraill yn cael y sylw haeddiannol.
- Dylid ychwanegu at adroddiadau ysgrifenedig gyda chyflwyniadau ar lafar a dylai'r BGC adrodd yn ôl i'r rhai sy'n adrodd ar y wybodaeth. Mae hyn yn bwysig ac yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu effeithiol a dangos gweithrediad mewn ymateb i wybodaeth.
- Mae ansawdd y naratif a dealltwriaeth o'r sefyllfa'r un mor bwysig â data.
- Meysydd Gweithredol i ystyried setiau data cysylltiedig fel bod modd gwella dadansoddiad o achos ac effaith.
- Eglurdeb ac ysgrifennu clir - defnyddio cyn lleied o acronymau â phosibl i sicrhau bod adroddiadau'n glir a phenodol.
- Pencampwr BGC i gyflwyno adroddiadau.

Amseru

- Roedd mynychwyr yn cytuno ar adrodd perfformiad bob 6 mis ond hefyd adroddiadau interim (byrrach) yn seiliedig ar eithriadau os oes angen gwneud penderfyniadau neu os oes materion yn codi - cydbwysu'r angen am strwythur, ond galluogi trafodaeth ynglŷn â materion sy'n codi. Nodi 'dim cynnydd' os nad oes unrhyw beth i'w adrodd. Roedd mynychwyr yn cytuno bod angen hyblygrwydd trwy gydol y broses (gweler Atebolrwydd).

Cynnwys a Math

- Mae rhwyddineb darllen ac eglurdeb yn nodau allweddol. Fodd bynnag, mae ambell ddarn o gynnwys yn gymhleth ac felly dylid hefyd gynnwys cyflwyniadau llafar lle bo'n briodol.
- Dylai templedi gynnwys risgiau neu fannau gwan a chanfod y 'Pwls Hapusrwydd'.
- Cafwyd awgrym y dylid cyfyngu data i adroddiad un tudalen am bob Maes Gweithredu (neu ei gadw'n gryno - dyma le dylid defnyddio adroddiadau eithrio).
- Cafwyd barn wahanol ynglŷn ag a ddylai pob Maes Gweithredu gan arddull adrodd safonol neu ddefnyddio cymysgedd o arddulliau gan ddibynnu ar y cynnwys. Ni chafwyd cytundeb ar yr arddull, ond cafwyd cytundeb y dylid penderfynu ar hynny ar ôl cadarnhau deilliannau a Meysydd Gweithredol - lle'r Grwpiau Gweithredu fydd pennu'r mesurau, a fydd yn eu tro'n helpu i bennu'r ffordd orau i'w cyflwyno i'r BGC.
- Nid yw targedau mympwyol yn ddefnyddiol nac yn ddymunol. Nid yw'r heddlu'n eu defnyddio ac maent yn arwain at ganlyniadau anfwriadol.
- Mae angen deilliannau clir ar bob Maes Gweithredu ac mae angen camau gweithredu manwl ar rai i helpu i sicrhau ystyr y mesuriadau.
- Casglu manylion y daith, nid y canlyniadau'n unig.
- Defnyddio astudiaethau achos.
- Straeon digidol ac amrediad arall o fesuriadau ansoddol.
- Dathlu llwyddiant.
- Dylai ymwneud â 'gwerth ychwanegol' yn hytrach na'r gwaith o ddydd i ddydd.

Atebolrwydd

- Cytunwyd bod y berthynas newydd rhwng Arweinydd y Maes Gweithredu (sy'n cynnal y broses adrodd) a'r Pencampwr BGC yn bwysig er mwyn adrodd yn effeithiol. Bydd y berthynas hon yn cynorthwyo'r Meysydd Gweithredu i ddenu sylw at wybodaeth a diweddiadau i'r BGC, sydd angen dealltwriaeth fwy manwl o faterion sy'n effeithio ar ddeilliannau. Dylai'r Pencampwr BGC gwrdd ag Arweinydd y Maes Gweithredu cyn y cyfarfod BGC, er mwyn iddynt allu helpu i benderfynu ar y mathau o wybodaeth a fydd yn mynd i'r BGC.
- Trwy weithio ar y cyd, mae'r gofynion gwahanol angen cael eu hadrodd yn rheolaidd, ond ar yr un pryd, mae angen galluogi adrodd mwy hyblyg. Bydd hyn yn helpu wrth benderfynu pa faterion sydd angen eu hamlygu, er enghraifft os oes angen penderfyniad nad oes modd aros nes y cyfnod adrodd nesaf ar ei gyfer. Bydd hyn yn ffordd newydd i gysylltu adroddiadau gyda'r naratif, adroddiadau eithrio ac adborth. Bydd hyn hefyd yn cynnig ffordd i sicrhau atebolrwydd os nad yw gwybodaeth wedi cael ei ddarparu.
- Mae'n rhaid cytuno ar ddyletswyddau clir o ran pwy sy'n ysgrifennu adroddiadau ac erbyn pryd o'r dechrau.

Problemau eraill

Roedd mynychwyr yn cytuno bod y modd yr ydym yn ymgysylltu â'n staff ein hunain yn ein sefydliadau'n bwysig, felly bod sefydliadau unigol yn gwybod beth sy'n digwydd a'u bod yn gallu cefnogi gweithgaredd ar lefel y BGC.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r hyn mae sefydliadau'n mynd i'w wneud i newid y ffordd maen nhw'n gweithio er mwyn bodloni'r nodau ehangach, ac roedd hyn yn faes sydd angen ei ymchwilio ymhellach. Rhoddwyd enghraifft lle mae CNC yn hyfforddi eu staff i adnabod materion iechyd meddwl o fewn parciau a pharciau gwledig, lle bod ganddynt gyswllt uniongyrchol â chwsmeriaid. Mae hwn yn cefnogi amcanion iechyd.

Bydd rhannu gwybodaeth rhwng Meysydd Gweithredu'n bwysig mewn ymateb i'r setiau data cysylltiedig a nodwyd yn flaenorol.

Enghreifftiau o systemau mesur ar waith ar gyfer mesur lles

- The Logic Model (Blaenau Gwent)
- Methodoleg systemau arweinyddiaeth sy'n cael eu gweithredu yn Nhorfaen
- Seren Canlyniadau (canfyddiad cyfranogwyr)
- Graddfa Lles Edinburgh Warwick
- Mind Bwrdeistref Caerffili
- Y 5 Ffordd i Les
- Rhwydweithiau Gofal Cymdogol - eisoes wedi'u sefydlu